CYMRAEG 2050

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

## Adroddiad blynyddol 2023–24

## Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Adroddiad blynyddol 2023–24

**Cynulleidfa**

Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau y sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysgol yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartïon eraill â diddordeb.

**Trosolwg**

Er mwyn cyflawni gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006, lansiwyd *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* ym mis Gorffennaf 2017, wedi i'r strategaeth flaenorol dynnu i'w therfyn.

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyhoeddi adroddiad blynyddol i fonitro cynnydd yn erbyn Strategaeth y Gymraeg.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:


Is-adran Cymraeg 2050<br>
Llywodraeth Cymru<br>
Parc Cathays<br>
Caerdydd<br>
CF10 3NQ

e-bost: Cymraeg2050@llyw.cymru

@Cymraeg

Facebook/Cymraeg


**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/y-gymraeg

**Dogfennau cysylltiedig**

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017); *Cymraeg 2050: Rhaglen waith 2021 i 2026* (2021); *Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011–2050* (2017)


OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50956, ISBN digidol 978-1-83625-848-3


Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair yr Ysgrifennydd Cabinet** | **1** |
| **Cyd-destun – Cymraeg 2050** | **3** |
| **Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg** | **4** |
| **Thema 2: Cynyddu defnydd o’r Gymraeg** | **32** |
| **Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun** | **43** |
| **Casgliad** | **64** |

# Rhagair yr Ysgrifennydd Cabinet

Dyma gyflwyno ein hadroddiad blynyddol ar ein strategaeth iaith, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar ein cynnydd yn ystod y flwyddyn wrth weithredu *Cymraeg 2050* yng nghyd-destun ein *Rhaglen Waith ar gyfer 2021-26*, ein *Rhaglen Lywodraethu*, y *Cytundeb Cydweithio* â Phlaid Cymru a'n hymrwymiadau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn:

- Gorffen ymgynghori ar Fil y Gymraeg ac Addysg a chyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw.
- Pob awdurdod lleol yn cyflwyno ei adroddiad adolygu blynyddol cyntaf ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (a ddaeth yn weithredol ym mis Medi 2022).
- Parhau i fuddsoddi mewn darpariaeth trochi hwyr.
- Nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn parhau i gynyddu.
- Lansio cwmni Adnodd i arwain ar ddatblygu adnoddau dwyieithog ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.
- Cyhoeddi Fframwaith newydd ar gyfer y Siarter Iaith.
- Safonau'r Gymraeg i'r cwmnïau dŵr yn dod i rym.
- Cyhoeddi Papur Safbwynt y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.
- Lansio cynllun y Llysgenhadon Diwylliannol.
- Cyhoeddi *Polisi Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg*.
- Cyhoeddi adroddiad terfynol ar ein *Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg*.
- Parhau i gefnogi cymunedau â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg drwy raglen Perthyn.
- Drwy'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, cyhoeddi casgliad o gerddi yn yr holl ieithoedd brodorol, lleiafrifol a llai eu defnydd i nodi chwarter canrif ers Cytundeb Belfast/Gwener y Groglith.
- Parhau i weithredu ein cynllun gwaith ar y cyd â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i geisio deall mwy am y gwahaniaethau rhwng ffynonellau data am y Gymraeg.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar draws tair thema *Cymraeg 2050*, sef cynyddu nifer y siaradwyr, cynyddu defnydd o'r Gymraeg a chreu amodau ffafriol i'r iaith ffynnu.

Rydw i'n falch o'r cynnydd sydd wedi'i wneud mewn ysgolion Cymraeg a bod ein darpariaeth trochi hwyr yn mynd o nerth i nerth ledled Cymru. Mae Siarter Iaith yn dal i ddatblygu yn ein hysgolion a'r cynnydd a welwn yn nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn galonogol.

Rhaid diolch i'n holl bartneriaid am eu gwaith diflino gydol y flwyddyn – y mentrau iaith yn cynnal gwyliau bach a mawr a'r holl weithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg eraill a drefnwyd. Rhaid sôn yn benodol am Eisteddfod lwyddiannus Llŷn ac Eifionydd ac Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr.

Rydym yn parhau i arwain ym maes technoleg iaith ac yn gosod sylfeini gyda'n polisi seilwaith ieithyddol. Mae'r cydweithio ym maes yr economi, drwy ARFOR, y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* a gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn hollbwysig wrth i ni weithredu *Cymraeg 2050*. Mae cynllun *Mwy na geiriau* hefyd yn ein hatgoffa o bwysigrwydd datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn ein gweithleoedd, yn enwedig ym maes iechyd.

Wrth gloi, rhaid pwysleisio mai ein gweledigaeth yw bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru – y bobl sy'n gallu ei siarad yn hyderus, y rhai sy'n dysgu'r iaith a'r rhai sy'n siarad ychydig eiriau yn unig. Drwy weithio gyda'n gilydd, mae modd gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg ar gyfer y dyfodol ac edrychaf ymlaen at barhau i gydweithio â'n partneriaid yng Nghymru a thu hwnt gyda'r gwaith pwysig hwn.

**28 TACHWEDD 2024**

**Mark Drakeford AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**

# Cyd-destun – Cymraeg 2050

*Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* yw ein strategaeth iaith Gymraeg. Mae ganddi ddau brif darged sef:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.
- Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10% (yn 2013-15) i o leiaf 20% erbyn 2050.

Ar ôl pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (o dan Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) gyhoeddi adroddiad ar sut y cafodd y strategaeth iaith ei rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar flwyddyn ariannol 2023-24 ac yn cynnwys manylion ar ein cynnydd o dan dair thema strategaeth *Cymraeg 2050*:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Cyflwynwyd ail Raglen Waith 5 mlynedd *Cymraeg 2050* (ar gyfer 2021-26) ar ddechrau'r llywodraeth hon. Mae'r adroddiad hwn yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn y rhaglen honno, ein hymrwymiadau yn ein *Rhaglen Lywodraethu* ac yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.


# Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

## Y sefyllfa gyfredol – faint o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg?

Y cyfrifiad yw'r ffynhonnell allweddol sy'n cael ei ddefnyddio i fesur nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Roedd Cyfrifiad 2021 yn nodi bod 538,300 o bobl tair oed neu hŷn yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg, neu 17.8% o'r boblogaeth.

Ond gan fod yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn darparu canlyniadau amlach, a hynny bob chwarter, mae'n ffynhonnell ddefnyddiol er mwyn edrych ar dueddiadau yng ngallu'r boblogaeth yn y Gymraeg rhwng cyfrifiadau.

**Siart 1: Nifer y bobl tair oed neu hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg, o 2001 i fis Mawrth 2024**




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a chyfrifiad y boblogaeth

[Nodyn 1] Newidwyd i gynnal yr arolwg dros y ffôn yn unig.

Yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, roedd 862,700 o bobl tair oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, neu 28.0% o'r boblogaeth.

Mae ffigurau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn amrywio ychydig o flwyddyn i flwyddyn ac yn dueddol o fod yn uwch o lawer na ffigurau'r cyfrifiad. Mae tueddiadau diweddar yr Arolwg yn dangos cwymp ac mae'n anodd gwybod i sicrwydd beth sy'n gyfrifol am hynny. Dylid dehongli'r gostyngiad hwn gyda

gofal gan fod newid wedi bod yn y modd y cynhelir yr arolwg yn ddiweddar, a hefyd gan fod y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau wedi cytuno y dylid atal statws ystadegau swyddogol achrededig yr ystadegau dros dro o ganlyniad i'r ansicrwydd cynyddol ynghylch amcangyfrifon sy'n deillio o'r ffynhonnell.

Ym mis Ebrill 2023, fe wnaethom gyhoeddi cynllun gwaith ar y cyd â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (yr ONS) sy'n manylu ar waith pellach y byddwn yn ymgymryd ag ef i wella ein dealltwriaeth o'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng gwahanol ffynonellau data am y Gymraeg.

Rhan allweddol o'r gwaith hwn oedd cysylltu data Cyfrifiad 2021 â data o'r Arolwg o'r Llafurlu, sy'n sail i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, drwy'r Gwasanaeth Data Integredig. Cafodd canfyddiadau y prosiect cysylltu data arloesol hwn, y prosiect cyntaf i ddefnyddio'r Gwasanaeth Data Integredig, ei gyhoeddi ym mis Hydref 2023.

I grynhoi rhai o'r prif ganfyddiadau:

- Roedd tua dau o bob pump (39.9%) o'r bobl a gofnododd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu neu yng Nghyfrifiad 2021 wedi cofnodi nad oeddent yn gallu gwneud hynny yn y ffynhonnell arall.
- Dywedodd mwy o bobl eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu ac nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg yn Nghyfrifiad 2021 na'r gwrthwyneb.
- O'r bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu neu Gyfrifiad 2021, y grwpiau canlynol oedd yn tueddu i gytuno ar draws y ddwy ffynhonnell fwyaf aml: pobl 65 oed neu hŷn; pobl sy'n byw yn y gogledd-orllewin; pobl a anwyd yng Nghymru; a phobl â hunaniaeth genedlaethol Gymreig.
- O'r bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu neu Gyfrifiad 2021, y grwpiau canlynol oedd yn tueddu i anghytuno ar draws y ddwy ffynhonnell fwyaf aml: pobl iau na 25 oed; pobl sy'n byw yn y de-ddwyrain a'r gogledd-ddwyrain; pobl a anwyd mewn mannau eraill o'r DU; a phobl heb hunaniaeth genedlaethol Gymreig.
- O'r bobl oedd yn cytuno y gallent siarad Cymraeg ar y ddwy ffynhonnell, nododd dros ddwy ran o dair (68.6%) eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd. O'r bobl a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu ond nid yng Nghyfrifiad 2021, dim ond tua chwarter (24.8%) oedd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd.

Mae'r cynllun gwaith hefyd yn amlinellu sut y byddwn yn ceisio deall nid yn unig sut y mae'r ffynonellau data hyn yn wahanol, ond pam. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio pam mae'r gwahaniaethau rhwng y ffynonellau data yn newid dros amser drwy ystyried yn fanylach agweddau ar ddulliau arolygu a dyluniad arolygiadau. Byddwn yn parhau i weithio yn agos gyda chydweithwyr yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y prosiectau hyn dros y misoedd nesaf.

## 1. Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu

*Mae Cymraeg 2050 yn nodi'n hawydd i "weld cynnydd yn yr arfer o drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu, yr arfer o gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn...".*

Rydym wedi parhau i weithredu'n *Polisi Cenedlaethol ar Drosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd* a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021. Mae'r polisi yn canolbwyntio ar:

- Ysbrydoli plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg gyda'u plant nhw yn y dyfodol.
- Ailgynnau sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sy'n ddi-hyder eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain.
- Cefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg.
- Cefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg gyda'u plant.

Eleni, mae'n gwaith wedi canolbwyntio'n bennaf ar edrych ar ba ymyraethau a all sbarduno neu gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg rhwng rhieni sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg ond nad ydynt, o reidrwydd, yn defnyddio'r sgiliau hynny gyda'u plant. Mae'r gwaith hwn yn seiliedig ar y gwyddorau ymddygiadol ac yn cynnwys:

- Archwilio'r ddogfennaeth sy'n cael ei hanfon at ddarpar rieni a rhieni newydd er mwyn gweld a all eu sbarduno i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant.
- Edrych a all teganau gefnogi rhieni i ddechrau neu gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gyda'u plant.
- Sut yn union i gael gafael ar gerddoriaeth Gymraeg addas i rieni ganu gyda'u plant ac ystyried a fyddai hyn yn sbarduno rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg rhyngddynt.

Rydym yn ariannu cynllun cenedlaethol Cymraeg i Blant i gefnogi rhieni i ddefnyddio Cymraeg gyda'u plant, ac i ddewis gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynllun yn cael ei ystyried yn gam pwysig ar y daith tuag at addysg Gymraeg gyda nifer o'r awdurdodau lleol yn cydnabod cyfraniad y rhaglen yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).

Drwy gyfrwng cyfres o sesiynau am ddim i rieni a'u plant, mae rhwydwaith o swyddogion Cymraeg i Blant felly'n parhau i gefnogi teuluoedd i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg gartref, trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol, cymdeithasol ac addysgol plant. Yn ystod 2023-24, cynhaliwyd 3,503 o sesiynau rhithiol ac wyneb yn wyneb gyda 26,945 o rieni a 27,312 o blant yn cael eu cefnogi.

Cafodd data trosglwyddo iaith ei drafod yn adroddiad blynyddol y llynedd. Ond ym mis Mai 2024, fe wnaethom gyhoeddi pennawd ystadegol dilynol sy'n cynnwys dadansoddiad pellach o gyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg yn ôl rhyw y partner neu'r rhiant o Gyfrifiad 2021. Roedd cyfradd trosglwyddo'r Gymraeg ar gyfer

aelwydydd cwpl lle'r oedd un partner yn unig yn gallu siarad Cymraeg yn uwch lle'r oedd y partner Cymraeg ei iaith yn fenyw (45%) yn hytrach na gwryw (34%). Mae hyn yn gyson â’r patrwm a welwyd yng Nghyfrifiad 2011. Fodd bynnag, nid oedd gwahaniaeth rhwng cyfradd trosglwyddo’r Gymraeg ar gyfer aelwydydd mam unigol ac aelwydydd tad unigol lle mai'r rhiant oedd yr unig oedolyn a allai siarad Cymraeg (53% ill dau).

Byddwn ni’n parhau i ddadansoddi data trosglwyddo iaith, gan gynnwys data a gesglir drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru. Holwyd sawl cwestiwn newydd perthnasol i siaradwyr Cymraeg 16 oed neu'n hŷn sydd â phlant fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23. Yn dilyn saib i'r arolwg yn 2023-24, bydd y cwestiynau hyn yn cael eu holi eto yn 2024-25.

Bydd y data hwn yn ein cefnogi wrth i ni barhau i weithredu’n *Polisi Cenedlaethol ar Drosglwyddo’r Gymraeg a’i Defnydd mewn Teuluoedd.*

## 2. Y blynyddoedd cynnar

### Ehangu a Chefnogi Darpariaeth

Mae ein rhaglen i ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar, Sefydlu a Symud (SaS), yn ymateb i nod *Cymraeg 2050* i ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Caiff y rhaglen ei gweinyddu gan Mudiad Meithrin a 2023-24 oedd chweched blwyddyn y rhaglen.

Yn ystod 2023/24, cefnogwyd 21 darpariaeth drwy raglen SaS – y mae 13 ohonynt yn ddarpariaethau newydd ac 8 yn ddarpariaethau sydd wedi derbyn cymorth i ehangu.


Mae'r rhaglen hefyd yn cyfrannu at dargedau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdodau lleol ac wedi cyfrannu at ymrwymiad a wnaed yn y *Cytundeb Cydweithio* i ehangu rhaglen Dechrau'n Deg. O ran ehangu Dechrau’n Deg, roedd 14 o’r 21 darpariaeth a gefnogwyd drwy SaS yn cynnig Dechrau’n Deg. Mae data o’r rhaglen ehangu yn dangos fod dros 1,000 o blant wedi manteisio ar ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg Dechrau’n Deg hyd yma.

Mae Siart 2 isod yn dangos gostyngiad bach yn nifer y plant a fynychodd Gylchoedd Meithrin o 11,198 yn 2021/22 i 11,076 yn 2022/23. Dylid dehongli’r gostyngiad hwn yng nghyd-destun y gostyngiad cyffredinol yn nifer y plant 0 i 4 oed yng Nghymru dros y blynyddoedd diweddar. Mae cyfanswm yr oriau gofal wythnosol a ddarperir gan y Cylchoedd Meithrin wedi gweld cynnydd blynyddol dros yr 8 mlynedd ddiwethaf gyda 8,554 o oriau gofal yn ystod 2022/23 i’w gymharu â 8,331 yn 2021/22. Mae’r cynnydd hwn dros y blynyddoedd yn adlewyrchu fod mwy o Gylchoedd yn darparu gofal dydd llawn yn hytrach na gofal sesiynol.

Mae canran y plant sy'n trosglwyddo i addysg Gymraeg wedi aros yn gymharol sefydlog, sef 87% ar gyfer 2022/23, ac rydym yn obeithiol y bydd y tueddiad o gynnydd a welwyd cyn y cyfnod COVID-19 yn cael ei weld eto maes law.

Bydd data 2023/24 ar gael cyn diwedd 2024 a'r bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

**Siart 2: Nifer y plant sydd wedi mynychu Cylchoedd Meithrin**




Ffynhonnell: Data Mudiad Meithrin

[Nodyn 1] Roedd Cylchoedd Meithrin ar gau rhwng mis Mawrth a Medi 2020 oherwydd pandemig COVID-19.

Mae'r gwaith o gefnogi darparwyr gofal plant i gryfhau ac ymestyn eu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg wedi parhau yn ystod 2023-24. Drwy ein gwaith gyda Mudiad Meithrin, rydym wedi:

- Parhau i weithio tuag at y targed i gefnogi 60 darpariaeth newydd mewn ardaloedd o angen ledled Cymru yn ystod cyfnod y Senedd presennol drwy raglen ymestyn darpariaeth, Sefydlu a Symud (SaS).
- Cynnig hyfforddiant i ymarferwyr a gwirfoddolwyr o Gylchoedd Meithrin ledled Cymru drwy raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus, Academi.
- Parhau i gynnig cyfleoedd hyfforddiant i gynyddu nifer yr ymarferwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg drwy Gynllun Hyfforddiant Cam wrth Gam a Cam wrth Gam Ysgolion Mudiad Meithrin.
- Parhau i gefnogi rhieni a'u plant ifanc drwy raglen Cymraeg i Blant.
- Parhau i gryfhau'r cyswllt rhwng y Mudiad ac awdurdodau lleol yn sgil gofynion newydd y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac ehangiad rhaglen Dechrau'n Deg.

- Parhau i gydweithio â darparwyr a phartneriaid eraill er mwyn cynyddu cyfran y plant sy’n trosglwyddo o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Ymestyn cyrhaeddiad rhaglen hyfforddiant ‘Croesi’r Bont’, sy’n ffocysu ar gaffael iaith a throchi ac arfogi ymarferwyr â sgiliau arbenigol i’w defnyddio gyda phlant o gartrefi di-Gymraeg.

Parhawyd â'r gwaith gyda chonsortiwm gofal plant Cwlwm i fwrw ymlaen â'n hymrwymiadau allweddol yn y *Rhaglen Lywodraethu*, gan gynnwys ehangu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg. Cafodd Cwlwm £1,890,000 gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2023-24, a darparwyd £190,000 ohono’n benodol i gefnogi gwaith i gynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, yn unol â gofynion *Cymraeg 2050*.

Yn ogystal â hyn, dyrannodd Llywodraeth Cymru £1,706,000 arall i Cwlwm i gefnogi eu gwaith i weithredu ymrwymiadau'r *Rhaglen Lywodraethu* a'r *Cytundeb Cydweithio* gynt, mewn perthynas ag ehangu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn cynnwys cyllid tuag at recriwtio unigolion ychwanegol i ymgymryd â chymwysterau gofal plant cyfrwng Cymraeg lefel 3 a lefel 5. Mae cyllid eisoes wedi'i sicrhau i barhau â'r gwaith hwn hyd at 2026, ac mae'r trafodaethau’n parhau ynghylch model cyllid tymor hirach. Mae yna drafod hefyd ynghylch parhau i gyllido'r gweithgareddau eraill sy’n cefnogi gwaith i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Cyhoeddwyd canlyniadau'r gwaith ymchwil i'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant, ac awgrymiadau ar gyfer eu datblygu i'r dyfodol, ym mis Mawrth 2024. Mae'r argymhellion a luniwyd ar sail yr ymchwil yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Byddwn yn canolbwyntio ar wybodaeth sy'n ymwneud ag alinio'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant â’r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a beth arall y gellir ei wneud i sicrhau bod yr adroddiadau hyn yn ategu ac yn cefnogi ei gilydd.

Ym mis Rhagfyr 2023, manteisiodd tua 11,800 o blant ar y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru. Roedd tua 15% o'r rhain mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg. Mae data Arolygiaeth Gofal Cymru yn 2023 yn awgrymu, o ryw 1,900 o ddarparwyr a gofrestrwyd i weithredu'r Cynnig, fod 18% yn defnyddio'r Gymraeg fel eu prif iaith waith.

**Y Gweithlu**

Rydym wedi cynnal adolygiad o faes gwarchod plant yng Nghymru er mwyn deall anghenion y rhan hon o'r sector yn well, ac rydym wedi comisiynu ymarfer mapio ehangach o'r gweithlu gofal plant a chwarae. Dechreuodd y gwaith mapio hwnnw yn ystod 2022-23 ac mae adroddiadau Cam 1 a 2 bellach wedi eu cyhoeddi. Byddwn yn ystyried canfyddiadau’r ymarfer er mwyn llywio ein rhaglenni ymestyn darpariaeth yn y dyfodol.

O ran hyfforddiant, yn ystod 2023-24, derbyniodd 2,311 o ymarferwyr a gwirfoddolwyr o Gylchoedd Meithrin ledled Cymru hyfforddiant mewn 177 sesiwn drwy raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus, Academi.

Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn adrodd, cychwynnodd 107 o ddysgwyr Lefel 3 a 29 o ddysgwyr Lefel 5 eu cwrs drwy Gynllun Hyfforddiant Cam wrth Gam Mudiad Meithrin. Yn ogystal, dilynodd 90 o ddisgyblion o 15 ysgol uwchradd gwrs Cam wrth Gam Ysgolion.

Drwy gydweithio â chonsortiwm Cwlwm dros y flwyddyn ddiwethaf, rhoddwyd cyfleoedd i ymarferwyr gofal plant ddatblygu sgiliau Cymraeg ar gyfer eu gwaith, a hynny drwy raglen Camau y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Drwy hyn, cafodd dros 500 o ymarferwyr hyfforddiant wedi ei deilwra'n arbennig i anghenion y sector gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar.

## 3. Addysg statudol

Mae ein hysgolion yn allweddol i greu siaradwyr Cymraeg y dyfodol ac mae Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn gosod dyhead clir i gau'r bwlch rhwng deilliannau dysgu ar draws y gwahanol gategorïau iaith – fel bod pob plentyn, waeth pa ysgol fydd yn ei fynychu, yn dod yn siaradwr annibynnol a hyderus.

Rydym yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn targedau, dangosyddion ac ymrwymiadau addysg *Cymraeg 2050* yn yr adran hon.

### Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Bapur Gwyn yn amlinellu yn ein cynigion polisi ar gyfer y Bil rhwng 27 Mawrth a 16 Mehefin 2023.

Ar 21 Chwefror 2024, cyhoeddwyd adroddiad yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw, ynghyd â'r ymatebion unigol. Roedd yr adroddiad yn dangos bod cefnogaeth gyffredinol i'r uchelgais a'r amcanion a oedd wedi'u hamlinellu yn y Papur Gwyn. Ar sail y gefnogaeth honno, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ei fwriad i fwrw ati i gyflwyno Bil.

Ffocws y gwaith ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn oedd casglu gwybodaeth bellach am gostau ac effeithiau ein cynigion. Mae'r elfen hon yn rhan hollbwysig o'r broses o graffu ar y Bil.

Cyflwynwyd Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) gerbron y Senedd ar 15 Gorffennaf 2024 ac mae bellach yng Nghyfnod 1 y broses graffu yn y Senedd. Prif nod y Bil yw sicrhau, erbyn 2050, bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol yn ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol a hyderus, o leiaf. Yn benodol, bod pob disgybl yn cyrraedd sgiliau llafar sydd gyfystyr â lefel B2 o leiaf o'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (CEFR).

### Y Gymraeg yn y cwricwlwm

Mae'r Gymraeg yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r iaith yn parhau'n bwnc gorfodol i bob dysgwr 3-16 oed, gyda hyblygrwydd i ysgolion benderfynu ar y ffordd orau o sicrhau bod eu dysgwyr yn gwneud cynnydd yn y Gymraeg.

Mae cynnydd ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad yn seiliedig ar gysyniad o gontinwwm dysgu. Yn achos y Gymraeg, mae hyn yn golygu bod pob disgybl yn datblygu o fod yn ddi-iaith, neu gyda dim ond ychydig iaith, ac yn gwneud cynnydd tuag at fod yn ddysgwr sy'n defnyddio'r iaith yn hyderus ac yn llwyddiannus.

Cefnogir dysgu ac addysgu Cymraeg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg drwy Fframwaith Iaith Gymraeg. Mae'n tanlinellu sut mae'r iaith yn rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru ac yn nodi'r gofynion statudol ar gyfer y Gymraeg, yn ogystal â nodi'r profiadau, gwybodaeth, a'r sgiliau sy'n rhan o'r cwricwlwm. Datblygwyd y fframwaith newydd gan athrawon ar gyfer athrawon. Fe'i cynlluniwyd i helpu ysgolion i ddatblygu eu dealltwriaeth o beth i'w ddysgu, yn ogystal â'u dealltwriaeth o gynnydd mewn dysgu Cymraeg. Gall ysgolion ei ddefnyddio wrth iddynt gynllunio eu cwricwlwm a'u hasesiad i helpu i nodi'r wybodaeth, y sgiliau, y profiadau a'r gwarediadau a fydd yn ganolog i'r cyfan.

Mae prosiectau fel Ein Llais Ni a ariennir gan Lywodraeth Cymru a ddatblygwyd ar y cyd gan GwE a Phrifysgol Bangor ac a gyflwynir ledled Gogledd Cymru mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi cyfrannu at y gwaith o hybu sgiliau llafaredd yn y Gymraeg. Mae'r prosiect bellach wedi'i rannu ledled Cymru ac wedi'i addasu ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg.

Er mwyn sicrhau bod cymwysterau Cymru nid yn unig yn addas i ddiwallu anghenion sy'n esblygu ymhlith dysgwyr a chyflogwyr, ond hefyd i adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru yn briodol, mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn adolygu a diwygio'r Cymwysterau Cyffredinol sydd ar gael i ddysgwyr 14-16 oed. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Chymwysterau Cymru wrth iddynt fwrw ymlaen â'r rhaglen ddiwygio hon.

**Y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)**

Mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi bod yn weithredol ers mis Medi 2022, ac maent yn amlinellu sut y mae awdurdodau lleol yn bwriadu gwella'r modd y caiff y Gymraeg mewn addysg ei chynllunio yn eu hardaloedd dros y 10 mlynedd nesaf, a hynny'n seiliedig ar darged sy'n cyd-fynd â *Cymraeg 2050*.

Cyflwynodd pob awdurdod lleol ei adroddiad adolygu blynyddol cyntaf i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2023. Dangosodd yr adroddiadau bod cynnydd yn y ganran o ddysgwyr Blwyddyn 1 sy'n astudio yn bennaf drwy'r Gymraeg mewn un ar ddeg awdurdod lleol, gostyngiad mewn deg sir gydag un sir wedi cynnal y ganran ers 2022-23.

Gwelwn fod awdurdodau lleol wedi rhoi sylw yn ystod 2023-24 i gryfhau eu strwythurau gweithredu ac atebolrwydd mewnol ac allanol er mwyn sicrhau y caiff eu CSCA eu gweithredu'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r fforymau addysg sirol, sefydlu is-grwpiau thematig yn cynnwys blynyddoedd cynnar, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a'r gweithlu, yn ogystal â chytuno ar drefniadau newydd i fonitro ac adrodd ar gynnydd yn erbyn eu targedau ac ymrwymiadau CSCA.

Y meysydd a gafodd eu blaenoriaethu gan y mwyafrif o awdurdodau lleol yn ystod 2023-24 oedd ehangu lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg, yn benodol lleoliadau Dechrau'n Deg; gwneud cynnydd ar gynlluniau cyfalaf gan gynnwys sicrhau aliniad rhwng y rhaglen gyfalaf 9 mlynedd a'u CSCA; a chynnal adolygiadau o'u darpariaethau cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), fel sy'n ofynnol o dan adran 63 o'r Ddeddf ADY.

Mae cynnydd wedi'i wneud mewn tri maes pwysig o fewn y CSCA sef categoreiddio ysgolion, y ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid a'r rhaglen gyfalaf. Ceir rhagor o wybodaeth am y meysydd hyn isod.

Mae ymrwymiadau yn y CSCA i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a newid categori ysgol dros ddeugain o ysgolion ar draws Cymru yn ystod oes y CSCA. Yn ystod 2023-24, mae proses ymgynghori i newid categori iaith 6 ysgol yng Ngheredigion a Phowys wedi bod ar waith.

Mae darpariaeth trochi hwyr yn rhan ganolog o'r CSCA a cheir rhagor o wybodaeth am y rhaglen isod.

Mae ymrwymiadau yn y CSCA i agor 23 ysgol Gymraeg newydd ac ehangu 25 sy'n bodoli eisoes.

### Categoreiddio ysgolion

Drwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, rydym wedi llwyddo i bennu categori iaith i bob ysgol berthnasol yng Nghymru sef 1,415. Bydd hyn yn gosod seilwaith bwysig ar gyfer Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn y dyfodol.

Cafodd y gwaith o wneud newidiadau i drefniadau'r CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgybl) er mwyn cynnwys y categorïau newydd ei orffen yn ystod tymor yr hydref 2023. Cafodd CYBLD 2024 ei gwblhau gan ysgolion rhwng mis Ionawr a Mawrth 2024 ac mae'r wybodaeth am gategorïau newydd yr ysgolion ar gael ers diwedd tymor yr haf eleni.

Rydyn ni wedi sefydlu grŵp strategol cenedlaethol gydag wyth awdurdod lleol sy'n blaenoriaethu'r polisi categoreiddio er mwyn adeiladu ar y gwaith sydd wedi digwydd ers cyhoeddi'r canllawiau newydd yn 2021. Mae'r grŵp yn rhannu arferion da, profiadau a heriau, ac yn cael cefnogaeth ac arweiniad pellach barhaus ar faterion ymarferol yn ymwneud â'r polisi categoreiddio.

Cynhaliwyd gweithdy yn ystod y cyfnod adrodd gyda gweddill yr awdurdodau lleol sydd ag ysgolion cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg yn unig ar hyn o bryd yn eu hardaloedd. Trafodwyd sut i gyflwyno rhagor o Gymraeg yn ystod y diwrnod ysgol, yn enwedig yn yr ysgolion a'r lleoliadau cyfrwng Saesneg, er mwyn eu cynorthwyo i ddechrau cynllunio twf.

### Y ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid

Mae *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-2026* a'r *Rhaglen Lywodraethu* yn cynnwys ein hymrwymiad i ehangu'r rhaglen trochi hwyr i sicrhau bod pob newydd-ddyfodiad i'r iaith yn gallu cael addysg cyfrwng Cymraeg pan fydd ei angen a ble bynnag y mae ar ei daith ddysgu.

Rydym yn parhau i gynnig cyllid i gefnogi darpariaeth trochi hwyr ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd y cyllid yn parhau i gefnogi darpariaethau sydd eisoes wedi'u sefydlu (canolfannau neu unedau) neu'n arwain at allu sefydlu darpariaethau trochi hwyr newydd er mwyn galluogi mwy o ddysgwyr i ddod yn siaradwyr dwyieithog. Mae hyn yn gyfle gwych i bob awdurdod lleol a'u partneriaid ehangu eu darpariaethau trochi hwyr cyfrwng Cymraeg yn eu hysgolion a'u canolfannau trochi. Mae'r grant trochi hwyr yn parhau i gefnogi dros 60 o weithlu arbenigol ledled Cymru.

O ganlyniad i'n buddsoddiad yn y maes hwn, cafodd dros 890 o ddysgwyr gefnogaeth trochi hwyr yn ystod 2023-24. Yn wir, ers sefydlu'r grant yn 2021, mae dros 1,700 o hwyrddyfodiaid wedi elwa o'r ddarpariaeth a 1,200 o ddysgwyr ychwanegol wedi derbyn cefnogaeth gloywi dwys.

Agorwyd Canolfan Iaith newydd yn Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed, Caerffili sef Canolfan Gwenllïan ym mis Medi 2023. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n mynychu'r canolfannau iaith yn ardaloedd Abertawe, Blaenau Gwent a Bro Morgannwg gyda rhai siroedd fel Wrecsam yn ehangu'u darpariaeth ymhellach.

Fel rhan o'n hymrwymiad yn *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26,* rydym wedi sefydlu rhwydwaith i gefnogi addysg drochi drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r sesiynau'n mynd o nerth i nerth a chynhaliwyd dau gyfarfod yn ystod y flwyddyn gyda dros 40 o ymarferwyr trochi hwyr a swyddogion awdurdod lleol o bob cwr o Gymru'n bresennol i rannu arferion gorau.

**Cyllid cyfalaf**

Ers sefydlu'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg yn 2018, rydym wedi buddsoddi dros £128m mewn prosiectau cyfalaf cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Mae'r cyllid yn cefnogi awdurdodau lleol i wireddu eu hymrwymiadau yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) drwy fuddsoddi er mwyn gwella darpariaeth, ehangu neu sefydlu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd. Bydd y prosiectau cyfalaf y byddwn yn eu hariannu yn gwneud cyfraniad sylweddol i addysg Gymraeg ledled Cymru gan hefyd hybu'r iaith Gymraeg yn lleol.

Ers dechrau'r CSCA 10 mlynedd, mae buddsoddiad Band B a'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg wedi cefnogi 39 o brosiectau i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru. Mae 14 o ysgolion newydd wedi agor neu wedi'u hail-leoli i gynyddu eu capasiti i dderbyn mwy o ddysgwyr. Mae 25 o brosiectau i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'u cwblhau hefyd gan gynnwys rhai prosiectau gofal plant e.e. dwy uned gofal plant ym Môn a dau gylch meithrin ar safle ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghonwy.

Yn ystod 2023-24, agorwyd dwy ysgol gynradd newydd:

- Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles, CNPT
- Ysgol Gynradd Groes-wen, Caerdydd.

Darparwyd adeiladau newydd wedi’u hehangu:

- Ysgol Gynradd Gymraeg y Trallwng, Powys
- Ysgol Cwm Gwyddon, Caerffili
- Ysgol Sant Baruc, Bro Morgannwg.

Sefydlwyd egin ysgol newydd:

- Ysgol y Gyrnos, Merthyr Tudful.

Cwblhawyd estyniadau newydd:

- Ysgol Gynradd Chwilog, Gwynedd
- Ysgol Pennant, Powys
- Ysgol Gynradd Aberteifi, Ceredigion
- Ysgol Uwchradd Aberteifi, Ceredigion
- Ysgol Gymraeg Cwm Derwen, Caerffili
- Ysgol Gymraeg Bro Allta, Caerffili
- Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun, RCT.

Mae cyflwyno cam nesaf y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi'i gynllunio i fynd law yn llaw â chyflwyno'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd ac i sicrhau bod cynlluniau drafft yr awdurdodau lleol ar gyfer y Rhaglen Dreigl 9 mlynedd yn adlewyrchu gofynion a thargedau y CSCA. Mae pob awdurdod lleol wedi cyflwyno cynllun buddsoddi cyfalaf diwygiedig ar gyfer y 9 mlynedd nesaf.

**Cyfran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg**

Mae cynyddu nifer y disgyblion sy’n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o amcanion allweddol *Cymraeg 2050*.

Yn wreiddiol, roeddem yn defnyddio asesiadau athrawon i fonitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi’r data ymhellach. Ond, canslwyd Casgliad Data Cenedlaethol 2020 oherwydd y pandemig. Wrth gydnabod bod hyn yn amharu ar lif data blynyddol, yn yr adroddiad hwn felly, rydym yn defnyddio canran y dysgwyr lle mae’r Gymraeg yn cael ei haddysgu iddynt fel iaith gyntaf, gan ddefnyddio’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) er mwyn cael braslun o’r sefyllfa yn absenoldeb y data arferol. Mae Siart 3 isod yn cynnwys y ddwy ffynhonnell er mwyn dangos cysondeb yn y data, ac i ddangos ein cynnydd yn erbyn y targed hwn.

Mae data diweddaraf CYBLD (2024), a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf eleni yn dangos gostyngiad bach o ran dysgwyr oedran Dosbarth Derbyn sy’n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, o 23.8% yn 202/23 i 23.6% yn 2023/24. Mae’n bwysig nodi fodd bynnag nad yw’r data ar gyfer dysgwyr dosbarth derbyn yn gyflawn gan nad

yw'n statudol i ysgolion adrodd ar gyfrwng addysg dysgwyr sy'n iau na phum mlwydd oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Mae'r data yn dangos cynnydd bach o ran dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, o 23.4% yn 2022/23 i 24.3% yn 2023/24. Yn *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26*, rydym wedi ymrwymo i gynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu yn Gymraeg i 26% erbyn 2026.

Mae Tabl 1 isod yn dangos, yn 2011/12, roedd 7,300 o ddysgwyr Blwyddyn 2 (saith oed) yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, gyda 7,660 erbyn 2023/24. Mae'r 360 yn fwy o ddysgwyr gyfystyr â 12 o ddosbarthiadau newydd o 30 o blant. Mae canran y dysgwyr Blwyddyn 2 sydd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf hefyd wedi cynyddu o 22.2% yn 2011/12 i 23.2% yn 2023/24.


## Tabl 1: Nifer a chanran y plant sydd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn Nosbarth Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, (2012-2024)

| | Meithrin | | Dosbarth Derbyn | | Blwyddyn 1 | | Blwyddyn 2 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| 2011/12 | 7,510 | 21.1% | 8,160 | 23.8% | 7,670 | 23.1% | 7,300 | 22.2% |
| 2012/13 | 7,010 | 20.1% | 8,290 | 23.3% | 7,830 | 23.0% | 7,550 | 22.7% |
| 2013/14 | 7,460 | 20.6% | 7,980 | 23.0% | 8,100 | 22.8% | 7,650 | 22.5% |
| 2014/15 | 7,540 | 20.6% | 8,250 | 23.3% | 7,860 | 22.7% | 7,990 | 22.4% |
| 2015/16 | 7,630 | 20.9% | 8,290 | 23.0% | 8,110 | 23.0% | 7,760 | 22.3% |
| 2016/17 | 7,650 | 21.4% | 8,330 | 23.5% | 8,120 | 22.6% | 7,950 | 22.5% |
| 2017/18 | 7,630 | 21.6% | 7,970 | 23.2% | 8,300 | 23.3% | 8,100 | 22.5% |
| 2018/19 | 7,720 | 22.0% | 7,790 | 23.1% | 8,060 | 23.4% | 8,190 | 23.0% |
| 2019/20 | 7,880 | 22.9% | 7,900 | 23.5% | 7,850 | 23.3% | 7,970 | 23.1% |
| 2020/21 | 8,580 | 23.0% | 7,900 | 23.8% | 7,900 | 23.4% | 7,700 | 22.8% |
| 2021/22 | 7,560 | 22.5% | 7,540 | 23.3% | 8,010 | 23.9% | 7,840 | 23.1% |
| 2022/23 | 7,200 | 22.4% | 7,630 | 23.8% | 7,690 | 23.4% | 7,960 | 23.4% |
| 2023/24 | 7,050 | 22.9% | 7,280 | 23.6% | 7,900 | 24.3% | 7,660 | 23.2% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

[Nodyn 1] Noder nad oes yn rhaid i ysgolion adrodd ar nifer y plant sydd yn astudio'r Gymraeg sydd yn iau na phum oed ar 31 Awst ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Mae hyn yn golygu nad yw'r wybodaeth yn gyflawn ar gyfer plant Dosbarth Meithrin a Derbyn.

## Siart 3: Canran y disgyblion Blwyddyn 2 (7 oed) sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf neu sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf





Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a'r Casgliad Data Cenedlaethol o asesiadau athrawon

Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yng nghanran dysgwyr Blwyddyn 7 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg o 19.3% yn 2022/23 i 19.8% yn 2023/24, sy'n cyfateb i oddeutu 130 yn mwy o ddysgwyr.

Rydym hefyd yn monitro cyfran y dysgwyr Blwyddyn 9 (14 oed fel arfer) sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf). Mae'r gyfran hon wedi cynyddu dros amser o 17.0% yn 2011/12 i 19.6% erbyn 2023/24 – gweler Siart 4 isod. Unwaith eto, gan nad oes asesiadau athrawon wedi bod ar gael ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 2 (oedran gorffen yr ysgol gynradd) nac ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 9 yr ysgol uwchradd) yn gyson, rydym yn defnyddio canran y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf, gan ddefnyddio data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Fel ag yn achos Siart 3 uchod, mae Siart 4 isod hefyd yn cynnwys y ddwy ffynhonnell ochr yn ochr er mwyn dangos cysondeb cyffredinol y data.

## Siart 4: Canran y disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a 3 sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg fel iaith gyntaf neu sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf





Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a'r Casgliad Data Cenedlaethol o asesiadau athrawon

Mae Siart 4 uchod yn dangos, yn ôl cyfrifiad ysgolion blwyddyn academaidd 2023/24, bod 21.8% o ddysgwyr ar ddiwedd ysgol gynradd a 19.6% o ddysgwyr Blwyddyn 9 mewn ysgol uwchradd yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae'r canrannau hyn wedi cynyddu ychydig ers 2011/12. Fodd bynnag, mae'r ganran sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 3 yn parhau i fod yn is na'r ganran yng Nghyfnod Allweddol 2 dair mlynedd ynghynt (er enghraifft, gan gymharu Cyfnod Allweddol 2 yn 2020/21 â Chyfnod Allweddol 3 yn 2023/24).

Fodd bynnag, mae disgwyl i awdurdodau lleol barhau i wella dilyniant ieithyddol rhwng y cynradd a'r uwchradd i sicrhau bod ein dysgwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo i addysg uwchradd, a bod nifer y dysgwyr sy'n newid i ddilyn y llwybr Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 yn gostwng. Mae gofyn i CSCA yr awdurdodau nodi sut y byddant yn sicrhau bod dysgwyr a addysgir yn Gymraeg yn parhau i gael eu haddysgu felly wrth drosglwyddo o un grŵp blwyddyn i grŵp blwyddyn arall, a chynllunio yn unol â hynny os yw'r cyfraddau dilyniant yn destun pryder. Byddwn yn monitro cynnydd awdurdodau lleol ar weithrediad eu CSCA yn flynyddol.

## Siart 5: Canran disgyblion Blwyddyn 11 sydd wedi eu cofrestru ar gyfer TGAU yn y Gymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith)




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) a Chyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYLBD)


[Nodyn 1] Cafodd TGAU Cymraeg Ail Iaith ei diwygio i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2017 gan ddisodli'r cyrsiau llawn a byr TGAU a fodolai, sy'n esbonio rhywfaint o'r cynnydd mewn Cymraeg ail iaith a welir yn y data.

[Nodyn 2] O 2015/16, mae'r garfan yn seiliedig ar ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Hyd at 2014/15, mae'r garfan yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 33% o bobl ifanc 16-17 oed yn gallu siarad Cymraeg.

Mae cynnydd wedi bod yng nghanran y dysgwyr sy'n cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith (cwrs llawn) ers 2008/09, fel y gwelir yn Siart 5 uchod. Mae Siart 5 hefyd yn dangos bod 82% o ddysgwyr Blwyddyn 11 wedi'u cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith yn 2022/23 (19% Cymraeg iaith gyntaf, a 64% Cymraeg ail iaith). Mae hyn wedi cynyddu dros y degawd diwethaf o 70% yn 2008/09 (14% Cymraeg iaith gyntaf, a 56% ail iaith) – noder fod y ganran hon yn cynnwys dysgwyr a oedd wedi cofrestru ar gyfer cwrs byr ail iaith.

## Siart 6: Canran y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau neu bump cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) a Chyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYLBD)

[Nodyn 1] Yn sgil canslo arholiadau cyhoeddus, dyfarnwyd holl gymwysterau (a fyddai wedi cael eu sefyll fel arholiadau fel arfer) yn nhymor yr haf 2020/21 ar sail model gradd a bennir gan y ganolfan unigol. Hynny yw, penderfynwyd ar raddau a chymwysterau'r disgyblion gan ysgolion a cholegau. Dyfarnwyd yn seiliedig ar asesiadau o waith dysgwyr, gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth megis asesiadau heblaw arholiadau, ffug arholiadau a gwaith dosbarth.

[Nodyn 2] Bydd gan ddisgyblion y dyfarnwyd cymhwyster iddynt cyn cyfres arholiadau haf 2020 raddau a gyflawnwyd wrth sefyll arholiad ysgrifenedig, nid gradd a ddyfarnwyd iddynt gan ganolfan.

[Nodyn 3] Roedd cyfnod arholiadau 2021/22 yn flwyddyn drosiannol, lle dychwelodd cymwysterau perthnasol a eisteddai gan ddisgyblion Cymru i arholiad ysgrifenedig. Nid oedd hyn yn golygu dychwelyd yn llwyr i drefniadau arholi cyn y pandemig. I wneud iawn am unrhyw darfu ar amserlen yr ysgol, cafodd disgyblion a safodd arholiadau yn 2021/22 ddewis ehangach o gwestiynau o'r maes llafur, gyda Cymwysterau Cymru yn gosod canlyniadau hanner ffordd yn fras rhwng 2018/19 (y tro diwethaf i arholiadau gael eu cynnal) a chanlyniadau 2020/21.

Mae Siart 6 uchod yn dangos bod 84.4% o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn 2022/23 hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd 68.9% o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn 2022/23 hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu cryn dipyn ers 2015/16, ac wedi hen gyrraedd y targed o

65% erbyn 2021. Bydd data blwyddyn academaidd 2023/24 yn dod ar gael erbyn y flwyddyn nesaf a'r bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050.*

**e-sgol**

Ers iddo gael ei lansio yn 2018, mae prosiect e-sgol[1] wedi bod yn ehangu o flwyddyn i flwyddyn. Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, cafodd 56 cwrs (TGAU, UG a Safon Uwch) eu cynnig ar draws 42 o ysgolion i 584 o ddisgyblion.

Er bod cymryd rhan yn y prosiect yn wirfoddol, mae e-sgol bellach wedi ehangu i bob rhan o Gymru. Mae nifer sylweddol o'r awdurdodau lleol yn parhau i gyfeirio at e-sgol yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac mae'r gwaith o hyrwyddo'r prosiect yn parhau.

O ran mesur llwyddiant y cyrsiau sy'n cael eu darparu drwy e-sgol, ym mis Awst 2023 cafodd 15.2% o'r disgyblion a astudiodd drwy e-sgol A* yn eu harholiadau Safon Uwch o'i gymharu â 13% ar draws Cymru.

Ym mis Mawrth 2021, cyflwynwyd y 'Cyrsiau Carlam' dan fantell e-sgol. Mae'r cyrsiau yn gyfres o sesiynau adolygu rhithwir am ddim, drwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg i gefnogi disgyblion ym mlynyddoedd 11, 12 a 13 ledled Cymru. Mae sesiynau adolygu 'Carlam' yn parhau i gael eu cynnig ac mae'r cynllun wedi cynhyrchu cyfanswm o 965 fideo o'r sesiynau. Mae'r fideos ar gael ar wefan e-sgol ac hyd yn hyn, maent wedi cael eu gwylio dros 70,000 o weithiau.

Yn ystod 2023-24, mae e-sgol wedi ehangu darpariaeth i'r sector cynradd. Yn ystod y cyfnod peilot, cofrestrodd 74 o ysgolion i sesiwn byw cyntaf 'Cewri Cymru' gyda 145 o athrawon yn manteisio ar yr adnoddau. Yn ogystal, cofrestrodd 27 ysgol, gan gynnwys 5 ysgol arbennig, ar gyfer yr E-steddfodau ar-lein.

**Hyrwyddo Addysg cyfrwng Cymraeg**

Mae hyrwyddo addysg Gymraeg yn un o amcanion y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Rydym wedi parhau i roi cyllid i Fenter Caerffili i gyflogi Pencampwr Hyrwyddo Addysg Cyfrwng Cymraeg yn y De-ddwyrain i weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill er mwyn codi proffil a hyrwyddo darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth. Cafodd Pencampwr ei benodi ym mis Mai 2023, ac mae'r ffocws pennaf wedi bod ar sefydlu gwaelodlin o wybodaeth am y sefyllfa bresennol, sefydlu ac adeiladu rhwydweithiau cydweithio effeithiol gydag awdurdodau lleol, mentrau iaith a phartneriaid eraill er mwyn codi proffil a hyrwyddo darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth.

[1] Mae prosiect e-sgol yn seiliedig ar e-sgoil yr Alban. Mae'n fenter ddysgu gyfunol sy'n darparu cyfleoedd addysgu a dysgu ar-lein gan ddefnyddio dulliau uniongyrchol, dysgu amser real a rhyngweithiol. Gan ddefnyddio'r ystod o offer a gwasanaethau sydd ar gael drwy Hwb, mae'r prosiect wedi galluogi myfyrwyr o wahanol ysgolion i fanteisio ar gyfleoedd addysgu digidol gan athrawon cymwys a phrofiadol.

Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol gyntaf y cynllun hwn ym mis Mawrth eleni, gyda ffocws penodol ar ddathlu llwyddiannau'r rhanbarth wrth hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Cafodd y diwrnod ei drefnu yn ôl saith deilliant y CSCA, gyda chyfle i glywed am arferion da ar draws y rhanbarth mewn gwahanol feysydd wrth hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, yn cynnwys uwch-sgilio staff, trochi hwyr, Anghenion Dysgu Ychwanegol, denu teuluoedd o gymunedau lleiafrifol, a chydweithio ar draws gwahanol sectorau yn cynnwys y maes iechyd.

Parhawyd i rannu adnoddau marchnata gyda phartneriaid ac awdurdodau lleol ledled Cymru er mwyn hwyluso'r broses o hyrwyddo addysg Gymraeg a sicrhau cysondeb yn ein negeseuon.

## 4. Addysg ôl-orfodol

Mae addysg a hyfforddiant wrth galon ein gweledigaeth i ddatblygu a chynnal y Gymraeg. Felly, mae sicrhau dilyniant ieithyddol o addysg statudol i bob elfen o addysg a hyfforddiant ôl-16 yn hanfodol bwysig.

Rydym yn canolbwyntio ar greu mwy o gyfleodd i bobl ifanc ddysgu a hyfforddi drwy'r Gymraeg. Rydym hefyd am barhau i ddatblygu system effeithiol fel sylfaen gref i oedolion a phobl ifanc gael dysgu Cymraeg.

Rydym hefyd am weld mwy o fyfyrwyr â sgiliau iaith uwch er mwyn iddynt barhau i astudio'r Gymraeg yn y brifysgol i greu'r genhedlaeth nesaf o academyddion, athrawon y Gymraeg a gweithlu lle mae galw am sgiliau iaith lefel uchel.


Mae Siart 5 uchod yn dangos bod cynnydd o 70% i 82% o ddysgwyr Blwyddyn 11 wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg ers 2008/09. Mae'r canrannau hyn yn cynnwys disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer cyrsiau Cymraeg iaith ac ail iaith. Nid yw'r cynnydd yn y ganran sydd wedi cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg yn trosglwyddo i'r nifer sy'n dilyn Cymraeg Safon Uwch. Mae Siart 7 isod yn dangos y bu gostyngiad o 107 cofrestriad Cymraeg Safon Uwch Cymraeg iaith a Cymraeg ail iaith o 451 yn 2021/22 i 344 yn 2022/23[2].

Rydym yn monitro'r dilyniant hwn drwy edrych ar faint o ddysgwyr sydd wedi cofrestru i astudio Cymraeg Safon Uwch fel canran o'r rhai a wnaeth gofrestru i astudio TGAU Cymraeg ddwy flynedd cyn hynny. Bydd data 2023/24 ar gael maes o law a'r bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn yr adroddiad blynyddol nesaf. Mae Siart 7 isod yn seiliedig ar ddata hyd at 2022/23.

[2] Mae'r data yn cynnwys cofrestriadau cyrsiau lefel uwch yr holl disgyblion gan gynnwys:

- Dysgwyr nad ydynt mewn ysgolion a gynhelir (disgyblion mewn colegau neu ddim mewn addysg ffurfiol).
- Dysgwyr a ymunodd â'r ysgol ar ôl cynnal y cyfrifiad.

## Siart 7: Cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch fel canran o gofrestriadau Cymraeg TGAU ddwy flynedd yn gynharach, iaith gyntaf ac ail iaith




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) a Chyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYLBD)

[Nodyn 1] Yn sgil canslo arholiadau cyhoeddus, dyfarnwyd holl gymwysterau (a fyddai wedi cael eu sefyll fel arholiadau fel arfer) yn nhymor yr haf 2020/21 ar sail model gradd a bennir gan y ganolfan unigol. Hynny yw, penderfynwyd ar raddau a chymwysterau y disgyblion gan ysgolion a cholegau. Dyfarnwyd yn seiliedig ar asesiadau o waith dysgwyr, gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth megis asesiadau heblaw arholiadau, ffug arholiadau a gwaith dosbarth.

[Nodyn 2] Bydd gan ddisgyblion y dyfarnwyd cymhwyster iddynt cyn cyfres arholiadau haf 2020 raddau a gyflawnwyd wrth sefyll arholiad ysgrifenedig, nid gradd a ddyfarnwyd iddynt gan ganolfan.

[Nodyn 3] Roedd cyfnod arholiadau 2021/22 yn flwyddyn drosiannol, lle dychwelodd cymwysterau perthnasol a eisteddai gan ddisgyblion Cymru i arholiad ysgrifenedig. Nid oedd hyn yn golygu dychwelyd yn llwyr i drefniadau arholi cyn y pandemig. I wneud iawn am unrhyw darfu ar amserlen yr ysgol, cafodd disgyblion a safodd arholiadau yn 2021/22 ddewis ehangach o gwestiynau o'r maes llafur, gyda Cymwysterau Cymru yn gosod canlyniadau hanner ffordd yn fras rhwng 2018/19 (y tro diwethaf i arholiadau gael eu cynnal) a chanlyniadau 2020/21.

Mae Siart 7 uchod yn dangos dilyniant dysgwyr yn symud o TGAU i Safon Uwch. Erbyn y flwyddyn academaidd 2022/23, roedd 3.2% o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf ddwy flynedd ynghynt yna wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf. Mae'n dangos hefyd bod 0.7% o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg ail iaith ddwy flynedd ynghynt wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg ail iaith.

Mae canran y cofrestriadau TGAU Cymraeg sydd hefyd yn cofrestru i wneud Cymraeg Safon Uwch (iaith gyntaf ac ail iaith) yn parhau i ostwng. Mae'r niferoedd

sy’n astudio Safon Uwch mewn Saesneg ac ieithoedd tramor modern hefyd wedi gostwng yn sylweddol – nid yw’n unigryw i’r Gymraeg. Noder nad yw’r 82% o ddysgwyr Blwyddyn 11 y cyfeirir atynt yn Siart 5 uchod (a oedd wedi’u cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith yn 2022/23) wedi gorffen astudio cyrsiau Safon Uwch eto. Bydd rhaid aros nes bydd data casgliad 2023/24 a 2024/25 ar gael i ddangos y gwir sefyllfa ar hyn o bryd yn y niferoedd sy’n trosglwyddo o TGAU i Safon Uwch. Fodd bynnag, mae angen gwaith pellach i sicrhau bod disgyblion yn dilyn y llwybr TGAU iaith sydd fwyaf addas iddyn nhw.

Un o ddeilliannau’r CSCA yw bod awdurdodau lleol yn cynllunio i gynyddu’r nifer sy’n astudio’r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch. Mewn nifer o ardaloedd, mae’r niferoedd sy’n astudio’r Gymraeg mewn ysgolion yn isel, ac ar sail hynny, mae ysgolion weithiau yn peidio â chynnig y pwnc. Yn aml, gall e-sgol fod yn ateb mewn achosion o’r fath gan ei fod yn caniatáu i ysgolion greu clystyrau lleol i alluogi mwy o ddisgyblion i barhau i astudio Cymraeg fel pwnc Safon Uwch. Fel rhan o’r CSCA, byddwn yn parhau i fonitro’r sefyllfa’n ofalus er mwyn sicrhau bod y pwnc ar gael ledled Cymru.

Rydym yn parhau i ariannu’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu asedau a brand ar gyfer rhedeg ymgyrch barhaus i hyrwyddo Cymraeg fel pwnc Safon Uwch ac i gefnogi ysgolion i gynnal y pwnc gyda nifer isel o ddysgwyr.


**Addysg bellach a phrentisiaethau**

Yn ystod y flwyddyn adrodd, yn sgil y *Cytundeb Cydweithio*, fe wnaethom barhau i fuddsoddi cyllid ychwanegol i sicrhau bod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynyddu’r gyfran o brentisiaethau ac addysg bellach cyfrwng Cymraeg sydd ar gael. Rhoddwyd cyllid ychwanegol hefyd i’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16 i 25 oed ac i'r gweithlu addysg.

Darparwyd £2.825m ychwanegol i'r Coleg yn ystod 2023-24. Defnyddiwyd y cyllid hwn i gefnogi rhaglen o grantiau datblygu i golegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau ddatblygu capasiti cyfrwng Gymraeg mewn meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol, chwaraeon a hamdden, ac astudiaethau ar dir. Defnyddiwyd y cyllid hefyd i gefnogi dau brosiect Addysg Gychwynnol Athrawon, gan gynnwys prosiect i ddenu is-raddedigion yn ôl i Gymru i hyfforddi fel athrawon i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym yn awyddus i weld cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector  ôl-16. Mae Siart 8 isod yn dangos y cynnydd a wnaed yn y maes hwn yn ôl y math o ddarparwr.

## Siart 8: Canran y gweithgareddau addysg ymgymerwyd â hwy gan ddysgwyr 19 oed neu iau sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ôl y math o ddarparwr ar 31 Awst yn y flwyddyn academaidd




Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR); Casgliad Ôl-16

[Nodyn 1] Mae "cyfrifion" yn eithrio cymwysterau Cymraeg, er enghraifft, TGAU Cymraeg, Safon Uwch Cymraeg, Cymraeg i Oedolion.

[Nodyn 2] Nid yw'r "cyfrifion" yn cynnwys nodau dysgu lefel Addysg Uwch.

[Nodyn 3] Pennir y math o ddarparwr ar gyfer dysgu seiliedig ar waith yn ddibynnol ar y prif ddarparwr yn cyflwyno'r dysgu. Mae hyn yn wahanol i sail aelodau'r consortiwm a ddefnyddir mewn ystadegau a gyhoeddir mewn mannau eraill.

[Nodyn 4] Mae dysgu'n seiliedig ar waith yn cynnwys Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau. Mae darpariaeth Twf Swyddi Cymru+ (TSW+) wedi'i heithrio. Mae ystadegau TSW+ yn cael eu hadrodd ar sail blwyddyn ariannol, ar wahân i fathau eraill o ddarpariaeth a gesglir drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Daeth hyfforddeiaethau i ben ar 31 Mawrth 2022 gyda TSW+ yn dod i rym ar gyfer dechreuwyr newydd ar 1 Ebrill 2022.

Fel y gwelir yn Siart 8 uchod, mae canran y gweithgareddau dysgu sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn sefydliadau addysg bellach ac yn y sector dysgu seiliedig ar waith wedi cynyddu'n sylweddol ers 2017/18. Mae'r cynnydd hwn wedi'i ysgogi'n bennaf gan gynnydd yn nifer y gweithgareddau dwyieithog a ddarperir yn y sectorau hyn ac mae'n debygol bod hyn yn cynnwys peth gweithgareddau sy'n datblygu a chynnal sgiliau Cymraeg dysgwyr. Gwelwyd cynnydd graddol hefyd yn nifer y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal mewn ysgolion dros yr un cyfnod.

Ers cyhoeddi *Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg* y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (Rhagfyr 2018), mae'r Coleg wedi cefnogi nifer o brosiectau strategol gyda 71 grant yn cael eu dyfarnu i golegau a 33 grant i ddarparwyr prentisiaeth yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24. Roedd

y prosiectau hyn yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth: iechyd a gofal, gofal plant, gwasanaethau cyhoeddus, chwaraeon ac astudiaethau ar dir, er mwyn sefydlu seilwaith cadarn ar gyfer y ddarpariaeth a chynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

O ganlyniad, cyllidwyd 102 aelod o staff mewn colegau addysg bellach a chyda darparwyr prentisiaethau yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24 i gefnogi darpariaeth Cymraeg a dwyieithog yn y sefydliadau hyn.

Mae'r cynllun Llysgenhadon Dysgwyr i'r sector ôl-16 hefyd yn mynd o nerth i nerth. Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, roedd 49 o lysgenhadon yn hyrwyddo cyfleoedd Cymraeg i'w cyfoedion ledled Cymru, gan gynorthwyo darparwyr i fagu hyder dysgwyr yn eu Cymraeg, ac i gynnig cyfleoedd i sgwrsio a deall pwysigrwydd siarad yr iaith, yn enwedig yn y gweithle. Mae hyfforddiant i diwtoriaid/ymarferwyr yn allweddol wrth fynd ati i ehangu'r ddarpariaeth. Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, hyfforddwyd dros 400 yn y sector ôl-16. Yn ystod yr un cyfnod, cefnogwyd 38 aelod o staff i godi hyder a'u galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd drwy Raglen Fentora Genedlaethol i'r sector ôl-16.

Ym mis Awst 2021, lansiwyd y Cynllun Gwreiddio ar gyfer staff ôl-16 gyda'r bwriad o feithrin cymuned o staff er mwyn cynyddu lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ar ddiwedd 2023/24, roedd 425 aelod o staff wedi'u cofrestru ar y cynllun.


**Addysg uwch**

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cefnogi prifysgolion i ddatblygu modiwlau a chyrsiau yn Gymraeg ac yn ddwyieithog drwy grantiau ar y cyd â'r sefydliadau, yn hytrach nag ariannu swyddi darlithwyr, sy'n gwreiddio'r ddarpariaeth fel rhan annatod o'r arlwy. Bellach, mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael ar draws 25 maes pwnc.

Yn 2023/24, dyfarnwyd 54 grant pynciol a 4 grant sbarduno i gefnogi darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Dyfarnwyd 10 ysgoloriaeth ymchwil newydd yn 2023/24 mewn ystod o bynciau academaidd, gyda 27 ysgoloriaeth ymchwil yn parhau dan nawdd y Coleg.

Pan sefydlwyd y Coleg yn 2011, roedd 710 aelod o staff mewn prifysgolion yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn 2021/22, roedd y ffigwr wedi codi i 1,065. Cefnogir y darlithwyr drwy raglen hyfforddiant staff academaidd misol sy'n cynnwys hyfforddi wyneb yn wyneb, dysgu o bell a gweithdai.

## Siart 9: Cofrestriadau mewn sefydliadau addysg uwch gan fyfyrwyr yng Nghymru gydag addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

[Nodyn 1] Nid yw'r niferoedd yn cynnwys y cofrestriadau gan fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach.
[Nodyn 2] Mae myfyrwyr yng Nghymru yn cynnwys myfyrwyr sydd wedi cofrestru yng nghanolfan genedlaethol Cymru'r Brifysgol Agored.

Nid yw data am gofrestriadau gan fyfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru a oedd yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn eu haddysg ar gyfer 2022/23 ymlaen ar gael adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Byddwn yn cynnwys diweddariad pellach yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, sydd bellach yn gyfrifol am ariannu a goruchwylio addysg ac ymchwil ôl-16. Bydd gan y Comisiwn newydd rôl hollbwysig i ehangu'r arlwy cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ym maes addysg drydyddol. Yn benodol, bydd disgwyl i'r Comisiwn:

- Gynllunio'n strategol i hyrwyddo a chynyddu addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg.
- Annog darparwyr i gyflwyno, datblygu a chynyddu eu haddysg drydyddol cyfrwng Cymraeg.
- Annog darparwyr i gynllunio llwybrau dilyniant fel bod siaradwyr Cymraeg yn gallu parhau â'u dysgu ôl-16 a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a chynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn creu gweithlu dwyieithog.
- Monitro argaeledd a'r nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu cyfrwng

Cymraeg, ac unrhyw bynciau lle na ellir diwallu'r galw am ddysgu cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.
- Gweithio'n effeithiol ac yn strategol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gyflawni'r uchod.

Wrth sefydlu'r Comisiwn, rydym yn dwyn ynghyd gyfrifoldeb am strategaeth, cynllunio a goruchwylio addysg drydyddol o fewn un corff. Bydd hyn yn cryfhau'r fframwaith ar gyfer cynllunio ac ariannu'r ddarpariaeth ôl-16, gan sicrhau dull mwy cydlynol o ddatblygu a chynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Y nod yw i'r Comisiwn gynyddu'r galw am addysg drydyddol Gymraeg ac annog unigolion i gymryd rhan mewn addysg Gymraeg.

Ym mis Mehefin 2023, penodwyd y Coleg i roi cyngor i'r Comisiwn ar ei ddyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg. Yn ystod 2024-25, bydd y Coleg a'r Comisiwn yn cydweithio i sefydlu partneriaeth gref a fframwaith ar gyfer cynnig a derbyn cyngor. Bydd disgwyl i'r Comisiwn ystyried cyngor y Coleg wrth baratoi ei gynllun strategol cyntaf.

## Dysgu Cymraeg

Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (y Ganolfan) yn 2015 er mwyn cydlynu darpariaeth a chynnig arweiniad i'r maes dysgu Cymraeg. Creu siaradwyr Cymraeg newydd sy'n hyderus yn defnyddio eu sgiliau newydd yw nod y Ganolfan, a thrwy hynny, gyfrannu at wireddu'r uchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dyblu defnydd dyddiol o'r iaith.

Mae data blwyddyn academaidd 2022/23 yn dangos bod gan y Ganolfan 16,905 o ddysgwyr unigryw yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r data hefyd yn dangos y canlynol:

- Mae'r Ganolfan wedi darparu 29,485 o weithgareddau dysgu yn ystod 2022/23.
- Mae 60% o ddysgwyr ar lefel Mynediad (dyma'r lefel gychwynnol i ddechreuwyr).
- Mae 16% ar lefel Sylfaen a 24% ar lefelau Canolradd ac uwch (gan gynnwys Hyfedredd).
- Mae 72% o'r dysgwyr rhwng 25 a 64 oed, 15% yn hŷn na 65, a 13% rhwng 16-24 mlwydd oed.

Ers mis Medi 2022, bu'r Ganolfan yn gweithredu'r cynllun Ymlaen Gyda'r Dysgu, sy'n cynnig gwersi Cymraeg am ddim i bobl 16-25 oed. Mae'r cyrsiau wedi'u teilwra at allu yr unigolion boed yn gyrsiau blasu neu Fynediad hyd at lefelau Uwch a Hyfedredd. Mae gwersi am ddim hefyd yn cael eu cynnig i'r gweithlu addysg – boed yn benaethiaid, yn athrawon neu'n gynorthwywyr addysgu er mwyn cefnogi ein hymdrechion i gynyddu'r gweithlu a all addysgu drwy gyfwng y Gymraeg. Yn ystod 2023-24, fe wnaeth 1,633 o bobl ifanc 16-25 oed ymgymryd â gwersi Cymraeg am ddim a 500 o'r gweithlu sector addysg wedi derbyn hyfforddiant am ddim.

Mae'r Ganolfan hefyd yn arwain ar brosiect sy'n cymell siaradwyr Cymraeg ifanc i ddychwelyd o brifysgolion i helpu gydag addysgu Cymraeg mewn ysgolion. Cynhaliwyd yr ail gwrs o'i fath ym mis Gorffennaf 2023 ar gyfer 12 o is-raddedigion er mwyn rhoi blas iddynt ar ddod yn diwtoriaid Dysgu Cymraeg neu'n athrawon. Caiff diweddariad pellach ei rannu yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Mae rhaglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan yn darparu cyrsiau Dysgu Cymraeg i'r gweithle gan gynnwys cyrsiau blasu hunan-astudio ar-lein, cyrsiau gyda thiwtoriaid a chyrsiau preswyl dwys. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 6, y Gweithle, isod.

## 5. Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

Mae cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r newidiadau trawsnewidiol a nodir yn strategaeth *Cymraeg 2050*. Er mwyn gallu gweld twf yn nifer y disgyblion mewn addysg Gymraeg, mae angen sicrhau gweithlu digonol i'w haddysgu ac mae hyn yn gallu bod yn heriol.

Yn *Cymraeg 2050*, rydym wedi gosod y nodau canlynol erbyn 2031:

- 3,900 o athrawon cynradd a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4,100 o athrawon uwchradd a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae data diweddaraf y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24, yn dangos bod: 2,792 o athrawon cynradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a 2,549 o athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ffigurau hyn yn dangos gostyngiad bach ers 2022/23 – gweler Siart 10 isod.

Mae denu nifer digonol o athrawon i addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau'n her. Yn ystod y flwyddyn adrodd, aethpwyd ati i barhau i weithredu nifer o'r camau a nodir yng *Nghynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg* fel y ganlyn:

- Ariannwyd 16 lle i athrawon cynradd sydd am newid i fod yn athrawon uwchradd drwy'r Cynllun Pontio.
- Dyfarnwyd grantiau i 26 o brosiectau trwy'r grant ar gyfer datblygu capasiti'r gweithlu cyfrwng Cymraeg i ysgolion, gwerth dros £950,000. Mae'r grantiau yn helpu ysgolion i ddatblygu ffyrdd arloesol o ddatrys rhai o'u heriau recriwtio.
- Sefydlodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol Cadw Cyswllt sy'n hyrwyddo cyfleoedd i fyfyrwyr yn Lloegr ddychwelyd i Gymru i baratoi i addysgu a phrosiect i fentora is-raddedigion i ystyried symud ymlaen i fod yn athrawon.
- Dyfarnwyd bwrsari i gadw athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg mewn ysgolion uwchradd i 81 o athrawon. Byddwn yn monitro a fyddant yn parhau yn y system dros y blynyddoedd nesaf.


Rydym yn parhau i gefnogi athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i ddatblygu eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg ac i'w haddysgu. Ym mis Mehefin 2023, dechreuodd swyddog cenedlaethol gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

i weithio gyda'r consortia rhanbarthol, yr awdurdodau lleol a'r darparwyr cynllun sabothol, i gynllunio a datblygu rhaglen gydlynol i ymarferwyr ddysgu Cymraeg.

Yn unol â'r ymrwymiad yng *Nghynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg*, ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, rydym hefyd wedi cyhoeddi diweddariad i'r dogfennau canlynol:

- Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: dadansoddiad data
- Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: crynodeb o gynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg

**Siart 10: Nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

**Y gweithlu ôl-16**

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn arwain ar ddatblygu'r gweithlu ôl-16 ac mae ganddo nifer o gynlluniau hyfforddi ar waith i ddatblygu sgiliau iaith ac addysgeg staff, yn amrywio o'r rhai sy'n hyderus yn eu sgiliau Cymraeg i staff sy'n cychwyn ar eu taith i ddysgu'r Gymraeg.

Mae ein cyllid i'r Coleg yn cefnogi cynlluniau'r Coleg, gan gynnwys Rhaglen Datblygu Genedlaethol Sgiliaith, y Rhaglen Datblygu Staff Academaidd, Cynllun Gwreiddio, ac maent hefyd yn ariannu ysgoloriaethau ymchwil PhD sy'n cynyddu gallu sefydliadau Addysg uwch i gynnig cyrsiau cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Coleg yn darparu cefnogaeth i bartneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon yn ogystal â chynnal dau brosiect penodol i ddatblygu hyder myfyrwyr er mwyn gallu addysgu drwy'r Gymraeg, ac i ddenu myfyrwyr yn ôl i Gymru i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, derbyniodd y Coleg gyllid ychwanegol yn 2023-24 i redeg cynllun mentora i gryfhau ac annog sgiliau Cymraeg myfyrwyr ar gyrsiau Tystysgrif Addysg i Raddedigion AB ym mhrifysgolion Cymru.

Mae ein cyllid i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn cefnogi ystod o ymyraethau ar gyfer y gweithlu ôl-16, gan gynnwys y cynllun Cymraeg Gwaith a ddarperir ar y cyd â'r Coleg er mwyn datblygu sgiliau iaith tiwtoriaid a darlithwyr. Yn ystod 2023-24, dilynodd 901 o gyflogeion gyrsiau dysgu, gyda 7 prifysgol ac 11 o golegau addysg bellach wedi ymrwymo i'r cynllun. Hefyd, dilynodd 212 o gyflogeion y cwrs Hunan-Astudio gyda chymorth tiwtor.

Rydym hefyd yn darparu grant cymhelliant i fyfyrwyr Tystysgrif Addysg i Raddedigion i wella eu sgiliau addysgu a dysgu Cymraeg. O dan y cynllun, gall myfyrwyr sy'n astudio unrhyw bwnc (ac eithrio'r Gymraeg) wneud cais am grant ychwanegol o £1,000 ac mae darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd (hyd at 40 credyd) ar y cwrs i ddatblygu sgiliau Cymraeg

**Adnoddau addysg**

Ar 1 Ebrill 2023, sefydlwyd corff Adnodd i gefnogi ysgolion ac ymarferwyr i greu adnoddau sy'n cefnogi eu cwricwlwm lleol wrth i ysgolion gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Bydd yn wasanaeth amlwg a hygyrch a fydd yn helpu athrawon, cyhoeddwyr, rhanddeiliaid a sefydliadau eraill i gydweithio i greu'r adnoddau mwyaf defnyddiol posibl i ysgolion a dysgwyr. Bydd hyn yn helpu i sicrhau dull mwy strategol o gomisiynu adnoddau addysgol. Bydd deunyddiau newydd yn cael eu datblygu yn unol ag egwyddorion ac ethos y cwricwlwm newydd. Bydd gan athrawon a dysgwyr well mynediad at adnoddau perthnasol ac addas ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

Roedd blwyddyn ariannol 2023-24 yn ddyddiau cynnar iawn i Adnodd fel corff wrth iddo benodi Bwrdd, Cadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol – a ddechreuodd yn ei rôl ym mis Ionawr 2024.

Gydag amser, disgwylir i holl gontractau a grantiau presennol Llywodraeth Cymru drosglwyddo i Adnodd. Ond yn ystod y flwyddyn adrodd, parhaodd Llywodraeth Cymru â'r gwaith hwn gan sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau ar gael i gefnogi dysgwyr.

Yn dilyn llwyddiant adnodd Mwy o Stori'r Iaith a gyhoeddwyd gan Atebol a Rondo ym mis Mawrth 2023, ariannwyd Mwy o Stori'r Iaith Rhan 2 er mwyn ehangu'r ddarpariaeth. Mae rhan gyntaf y prosiect yn cyd-fynd â'r gyfres deledu a ddarllenwyd ar S4C ym mis Mawrth 2023, Stori'r Iaith.

Parhawyd â'r gwaith o ddatblygu adnoddau ar gyfer dysgu am hanes a chyfraniad Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Cyhoeddwyd Brethyn Cymru, sef llinell amser ddigidol i gyd-fynd â phosteri dwyieithog a gafodd eu hanfon at bob ysgol yng Nghymru, a Hanes Cymru Ni, sef gwefan sy'n dathlu cyfoeth amrywiaeth hanes Cymru.

Parhaodd gwaith ar y cyd ag Is-adran y Cwricwlwm ar grant o dros £800,000 i Gyngor Llyfrau Cymru. Mae'n grant tair blynedd (2022-25) i greu deunyddiau darllen i ddysgwyr 3-16 oed sy'n cynnig mewnwelediad i ddiwylliant, pobl a hanes Cymru yn ogystal â'r byd ehangach. Bydd y cynllun yn cefnogi amcanion 4 diben Cwricwlwm i Gymru, yn cefnogi datblygiad sgiliau empathi allweddol, yn cyfrannu at les emosiynol a meddyliol ac yn tanio dychymyg a chreadigrwydd dysgwyr.

Er mwyn cefnogi cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol ac Uwch, cyhoeddwyd 21 teitl newydd yn ystod 2023-24 drwy grant a ddarparwyd i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC), i ddarparu fersiynau Cymraeg o werslyfrau a llyfrau adolygu.

Parhaodd y gwaith gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i adnabod yr angen am adnoddau digidol dwyieithog i fyfyrwyr ôl-16 i'w defnyddio ar gyfer darpariaeth dysgu cyfunol, ynghyd ag adnoddau i gefnogi prentisiaethau.

Unwaith eto eleni, dyfarnwyd grant i RNIB i greu adnoddau braille, print bras a sain drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'r gwaith i ddatblygu adnoddau ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Parhaodd y gwaith hefyd ar grant o £272,000 a ddyfarnwyd i GwE ddatblygu cynllun Ein Llais Ni. Bydd y cynllun hwn yn meithrin hunan hyder a lles dysgwyr a'u datblygu'n gyfathrebwyr dwyieithog hyderus, yn arbrofi â strategaethau (gan gynnwys defnyddio arfau digidol) er mwyn hyrwyddo sgiliau llafaredd yn y Gymraeg.

# Thema 2: Cynyddu defnydd o’r Gymraeg

Ail brif darged *Cymraeg 2050* yw cynyddu defnydd dyddiol o’n hiaith ac rydym yn gweithio gydag amrywiol bartneriaid i greu cyfleoedd ar gyfer y defnydd hwnnw. Rydym ni’n credu bod y Gymraeg yn perthyn i bawb ac rydym ni am i bawb, waeth faint o Gymraeg sydd ganddyn nhw, deimlo’n hyderus i’w defnyddio bob dydd. Rydym yn trafod y maes hwn yn yr adran hon.

### Y sefyllfa gyfredol – faint o bobl sy’n siarad Cymraeg?

Rydym ni wedi gosod targed i gynyddu canran y bobl tair oed neu’n hŷn sy’n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy’n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o’n hiaith, i o leiaf 20% erbyn 2050 i gyd-fynd â’r twf mewn siaradwyr. Mae’r targed hwn hefyd yn un o’r dangosyddion cenedlaethol a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.


Mae’n anodd iawn mesur defnydd iaith. Un ffordd o wneud hynny yw drwy gynnal arolygon defnydd iaith achlysurol. I’r perwyl hwnnw, cynhaliwyd yr Arolwg Defnydd Iaith diweddaraf ym mis Gorffennaf 2019, ond effeithiodd COVID-19 ar y gwaith. Rydym yn manylu ar ganlyniadau’r arolwg hwn yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf.

Mae arolwg defnydd iaith 2019-20 yn dangos bod 10% o’r boblogaeth yn parhau i siarad Cymraeg yn ddyddiol a mwy nag ychydig o eiriau. Mae hyn felly’n golygu bod hanner siaradwyr Cymraeg yn defnyddio eu Cymraeg bob dydd.

Rydym wedi cyhoeddi crynodebau pwnc am ddefnydd o’r Gymraeg yn y cartref ac mewn addysg, defnydd cymdeithasol o’r Gymraeg, a defnydd o’r Gymraeg gyda darparwyr gwasanaethau o Arolwg Defnydd Iaith 2019-20. Cafodd bwletin ystadegol am ddefnydd o’r Gymraeg yn y gweithle ei gyhoeddi ym mis Medi 2023, a cheir trafodaeth bellach am yr ystadegau hyn yn adran y Gweithle isod.

Er mai arolygon defnydd iaith sy’n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd tuag at y targed o ddyblu defnydd dyddiol o’n hiaith, er mwyn cael canlyniadau mwy rheolaidd, rydym hefyd yn defnyddio canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer oedolion (16 oed neu hŷn).

## Siart 11: Canran y bobl 16 oed neu'n hŷn sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae canran yr oedolion 16 oed neu hŷn sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg wedi aros yn eithaf sefydlog, yn debyg iawn i ganfyddiadau Arolwg Defnydd Iaith 2019-20. Ni chafodd Arolwg Cenedlaethol Cymru ei gynnal yn 2023-24, ond 11% oedd y ganran yn 2022-23.

Ceir mwy o wybodaeth ar hyn yn yr adran Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, isod.

**Defnydd iaith yn yr ysgol – y Siarter Iaith**

Mae'r Siarter Iaith yn allweddol wrth hyrwyddo ethos Cymraeg cryf mewn ysgolion ac yn darparu amrywiol weithgareddau i gefnogi dysgwyr 3-18 oed i fwynhau'r Gymraeg. Rydym am ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau, felly mae'r Siarter yn annog pob aelod o gymuned yr ysgol i gymryd rhan, boed yn aelodau o weithlu'r ysgol a'r cyngor, yn ddysgwyr a'u rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach.

Mae gwahanol fersiynau o'r Siarter ar gael i'w defnyddio mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed, boed y rheiny'n ysgolion cyfrwng Cymraeg, Saesneg neu ddwyieithog.

Fis Medi 2023, yn dilyn cydweithio agos gyda phartneriaid allanol, cyhoeddwyd Fframwaith Cenedlaethol newydd ar gyfer y Siarter i roi ffocws ac arweiniad clir i'r sawl sy'n ei gweithredu – boed yn gydlynwyr lleol yn yr awdurdodau lleol ledled Cymru, yn gydlynwyr mewn ysgolion a'r holl weithlu yn ein hysgolion.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, buom yn gweithio ar raglen gyhoeddusrwydd newydd i'r Siarter Iaith a chrëwyd ystod o adnoddau i'w defnyddio mewn ysgolion ledled Cymru. Comisiynwyd canllawiau o’r newydd ar gyfer gweithredu rhaglenni’r Siarter, gan gynnwys Cymraeg Campus. Comisiynwyd animeiddiad byr yn egluro nod ac amcanion y rhaglen, ynghyd â chomisiynu fideo a fyddai’n cyfweld â chyfranwyr ar draws y wlad i sôn am bwysigrwydd y rhaglen yn eu hardal nhw. Mae tystysgrifau newydd hefyd wedi eu comisiynu i’w dosbarthu i ysgolion sydd wedi ennill gwobr efydd, arian neu aur ar eu taith Siarter Iaith. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu ffrindiau newydd i gymeriadau hoffus Seren a Sbarc, a fydd yn datblygu elfen gynhwysiant ac amrywiaeth y rhaglen.

## 6. Y gweithle

Mae gweithleoedd yn ofodau hollbwysig o ran cynyddu defnydd o’r Gymraeg. Maent yn cynnig cyfle i bobl ddefnyddio eu Cymraeg, ymarfer ei siarad a datblygu eu hyder a’u sgiliau.

Ym mis Medi 2023, cyhoeddwyd [dadansoddiad newydd] o Arolwg Defnydd Iaith 2019-20 sy’n adrodd ar ddefnydd ac agweddau tuag at y Gymraeg yn y gweithle. Roedd y dadansoddiad hwn hefyd yn adrodd ar farn pobl am argaeledd technolegau a chyfleoedd hyfforddi i gynorthwyo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith.

Dywedodd dros hanner y siaradwyr Cymraeg 16 oed neu hŷn mewn gwaith eu bod yn siarad Cymraeg â'u cydweithwyr o leiaf weithiau. Roedd ychydig o dan 1 o bob 5 bob amser yn siarad Cymraeg â chydweithwyr. Siaradwyr Cymraeg hŷn a siaradwyr Cymraeg sy’n byw yn y gogledd-orllewin oedd fwyaf tebygol o adrodd eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gweithle.

Roedd bron i hanner (46%) y siaradwyr Cymraeg 16 oed neu hŷn mewn gwaith wedi nodi bod eu cyflogwr yn cynnig hyfforddiant neu gymorth i wella eu Cymraeg (gan eithrio’r rhai atebodd nad oeddent yn gwybod).

O'r rhai fynegodd farn, dywedodd bron i hanner (46%) y siaradwyr Cymraeg fod pob un neu bron pob un o’u cydweithwyr yn gefnogol i'r Gymraeg, ac roedd mwy na thri chwarter (76%) yn ystyried bod y rhan fwyaf neu bob un o'u cydweithwyr yn gefnogol o’r iaith.

Roedd dros ddwy ran o dair (69%) o siaradwyr Cymraeg 16 oed neu'n hŷn sy’n gweithio ond nad ydynt yn hunangyflogedig, yn credu bod eu cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau ffurfiol ac anffurfiol ar y busnes. Roedd 13% o'r farn bod eu cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg mewn agweddau anffurfiol ond nid mewn agweddau ffurfiol ar y busnes, tra bod 8% yn ystyried nad oedd eu cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg mewn unrhyw agwedd ar y busnes.

### Cymraeg Gwaith

Mae rhaglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu cyrsiau sy’n amrywio o gyrsiau blasu hunan-astudio ar-lein i gyrsiau

dysgu dwys. Yn ogystal â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a’r defnydd ohoni, mae Cymraeg Gwaith hefyd yn caniatáu i gyrff ddarparu gwasanaethau Cymraeg gwell i’w defnyddwyr.

Roedd y flwyddyn adrodd yn flwyddyn arall lwyddiannus i’r rhaglen, gyda 578 o gyflogwyr yn manteisio ar gyrsiau Cymraeg Gwaith yn ystod 2023-24. Mae Cymraeg Gwaith yn darparu cyrsiau ar ystod o lefelau. Yn ystod 2023-24, dilynodd 6,071 o bobl gyrsiau blasu hunan-astudio, 954 gyrsiau dysgu gyda thiwtor neu gyda chefnogaeth tiwtor, a 331 o ddysgwyr gyrsiau dysgu dwys.


Fe brofodd y cyrsiau sectorol yn boblogaidd unwaith eto yn ystod 2023-24, gyda 1,113 yn cymryd rhan yn y cyrsiau i’r sectorau addysg bellach ac uwch; 500 yn y cyrsiau ar gyfer penaethiaid ac athrawon; 610 yn y rhaglen i awdurdodau lleol; 1,514 yn y rhaglen i’r sector iechyd a gofal; a 726 yn y rhaglen Camau, sydd wedi ei datblygu’n benodol ar gyfer gweithwyr gofal plant.

### Y defnydd o’r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru

Yn ein strategaeth ar gyfer defnyddio’r Gymraeg yn fewnol yn Llywodraeth Cymru, *Cymraeg. Mae’n perthyn i ni i gyd*, rydym yn gosod nod hirdymor i ddatblygu a hyrwyddo defnydd o’r iaith yn y sefydliad. Ein nod yw i’r holl staff sy’n gweithio i Lywodraeth Cymru allu deall Cymraeg erbyn 2050, sy’n golygu y byddai’n dod yn weithle lle mae’n arferol i’r Gymraeg a’r Saesneg gael eu defnyddio’n naturiol ac yn gyfnewidiol.

Mae pedair thema wedi bod yn greiddiol i weithredu’r strategaeth yn ystod y blynyddoedd cyntaf: dysgu, arweinyddiaeth, recriwtio a thechnoleg. Rydym wedi cynyddu ac ehangu ein rhaglen dysgu Cymraeg, sydd wedi arwain at gynnig mwy amrywiol a hygyrch ac sydd wedi denu mwy o ddysgwyr i’r rhaglen. Ym mis Mai 2020, roedd 76 o ddysgwyr yn dilyn rhaglen dysgu Cymraeg ffurfiol yn Llywodraeth Cymru, ond erbyn 2024, gwelwyd cynnydd o 740% yn nifer ein dysgwyr Cymraeg yn y Llywodraeth.

**Siart 12: Nifer y dysgwyr sy'n dilyn rhaglen dysgu Cymraeg ffurfiol yn Llywodraeth Cymru**




Ffynhonnell: Adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg


Mae ein harlwy dysgu Cymraeg i staff yn cynnwys 13 opsiwn gwahanol erbyn hyn:

- Dosbarthiadau wythnosol
- Cwrs Bloc Dwys
- Hunan-astudio ar-lein
- Dysgu 1:1
- Codi Hyder
- Gloywi
- SaySomethinginWelsh
- Ynganu Cymraeg
- Kick Off Cymraeg
- Cyrsiau Preswyl
- Cwrs Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol
- Cymraeg Cwrteisi
- Clwb Cymraeg

Yn ystod 2023-24, llwyddodd 9 aelod o staff i ennill cymhwyster y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sef y Dystysgrif Sgiliau Iaith, mewn peilot i drosglwyddo'r cymhwyster i'r gweithle. Bu'r 9 yn rhan o raglen gynhaliaeth a thracio eleni, wedi iddynt ennill y Dystysgrif, i'w cynorthwyo i roi eu sgiliau ar waith yn y gweithle. Yn fwy cyffredinol, darperir cefnogaeth i'n dysgwyr hefyd ymarfer eu sgiliau'n gyson drwy raglen fentora helaeth, rhwydweithiau trafod Cymraeg ar Microsoft Teams a sesiynau ymarfer anffurfiol dan ofal tiwtor, y Clwb Cymraeg.

Rydym yn pwysleisio yn ein deunydd recriwtio fod y Gymraeg yn ased yn Llywodraeth Cymru waeth beth yw'r rôl sy'n cael ei hysbysebu. Cyflwynwyd rhaglen hyfforddi Cymraeg ddwys i ail gohort o brentisiaid eleni gyda phythefnos o wersi llawn amser. Mae ein ffocws ar ein huwch-arweinwyr hefyd yn parhau gyda rhaglen gynefino i newydd ddyfodiaid i'r Uwch Wasanaeth Sifil, a chanllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg wrth gadeirio cyfarfodydd.

**Siart 13: Canran gweithlu Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Gymraeg i wneud eu gwaith**




Ffynhonnell: Arolwg Pobl (Llywodraeth Cymru) ac Arolygon Pobl y Gwasanaeth Sifil (Swyddfa Cabinet y DU)

[Nodyn 1] Ni chafodd yr arolwg ei chynnal yn 2015. Yn 2016 cafodd y categori "Mwy o Saesneg na Chymraeg" ei rannu'n dri chategori pellach, sef "mwy o Saesneg na Chymraeg ond yn siarad Cymraeg bob dydd, yn wythnosol, neu'n llai aml nag wythnosol".

[Nodyn 2] Mae'r canlyniadau a ddangosir ar gyfer 2016 a 2019/20 wedi'u cymryd o'r Arolwg Pobl a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2016 a mis Mawrth 2020 (gan ystyried y flwyddyn o Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020). Mae'r canlyniadau eraill wedi'u cymryd o Arolygon Pobl y Gwasanaeth Sifil (sy'n cael eu cynnal gan Swyddfa Cabinet y Deyrnas Unedig ym mis Hydref fel arfer). I raddau helaeth, yr un holiadur a ddefnyddiwyd ar gyfer y ddau arolwg ac fe'u cynhaliwyd yn yr un ffordd. Fodd bynnag, gan fod Arolwg Pobl 2020 wedi cael ei gynnal ym mis Mawrth 2020, roedd y gyfradd ymateb ychydig yn is na'r blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd COVID-19.

Mae data Siart 13 uchod yn dangos fod 33% o weithlu Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r Gymraeg i wneud eu gwaith. Drwy gyrraedd ein nod o weld yr holl staff sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru yn gallu deall Cymraeg erbyn 2050, byddwn yn galluogi ein staff i weithio yn y Gymraeg o ddydd i ddydd, ac fe fydd yna gynnydd sylweddol yn y defnydd a wneir o'r iaith o ganlyniad i hynny.

**Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog**

Rhaglen iaith mewn arweinyddiaeth yw hon gyda'r sawl sy'n mynychu'n cael trafod eu profiadau a'u barn am sut i weithredu yn ysbryd *Cymraeg 2050* yn eu sefydliadau. Mae'r rhaglen yn mynd i'r afael â meysydd fel:

- Bias isymwybodol
- Iaith a phŵer
- Iaith a diwylliant
- Ymddygiadau arweinwyr
- Gweledigaeth a gwerthoedd

Mae'n rhaglen ar y cyd rhwng cwmni o arbenigwyr allanol, Is-adran Cymraeg 2050 ac Academi Wales. Eleni, daeth y trydydd cohort i ben ac rydym bellach yn paratoi rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog a fydd yn para 5 mlynedd.

## 7. Gwasanaethau

**Rheoliadau Safonau'r Gymraeg**

Fe wnaeth y gwaith o baratoi rheoliadau safonau barhau yn ystod y flwyddyn adrodd. Cafodd Rheoliadau i wneud safonau'n gymwys i gwmnïau dŵr eu cymeradwyo gan y Senedd ar 19 Medi 2023, gan ddod i rym ar 31 Hydref 2023. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi dechrau'r broses o osod safonau ar y cyrff perthnasol.

Gwnaed gwaith paratoadol hefyd i gynnal ymgynghoriad ar ychwanegu mwy o gyrff cyhoeddus i'r drefn safonau. Mae'r ymgynghoriad cysylltiedig wedi dod i ben erbyn hyn, ac rydym wrthi'n dadansoddi'r ymatebion hynny gan obeithio gosod offerynnau statudol gerbron y Senedd yn gynnar yn 2025.

**Helo Blod**

Mae Helo Blod yn helpu unigolion, busnesau, elusennau a chyrff y trydydd sector i ddefnyddio rhagor o Gymraeg drwy gynnig cyfieithiadau am ddim hyd at 500 gair y mis, yn ogystal â gwasanaeth gwirio testun Cymraeg. Mae hefyd yn ateb ymholiadau o bob math gan fusnesau am y Gymraeg, yn darparu nwyddau Iaith Gwaith ac yn cyfeirio pobl at ffynonellau cymorth mewn sefydliadau perthnasol. Gellir cysylltu â Helo Blod dros y ffôn, drwy'r wefan, e-bost, a'r cyfryngau cymdeithasol.

Yn ystod 2023-24, fe wnaeth gwasanaeth Helo Blod:

- Dderbyn 3,500 o geisiadau cymorth a chyfieithu – 1,655 gan fusnesau, 1,422 gan elusennau a 423 gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys ceisiadau i gyfieithu arwyddion, posteri, testun ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol ac ar gyfer gwefannau.

- Cyfieithu 545,051 o eiriau o Saesneg i'r Gymraeg a gwirio 20,435 o eiriau Cymraeg.
- Croesi'r garreg filltir o dderbyn 10,000 o geisiadau am gymorth drwy'r wefan ers lansio ym mis Chwefror 2020.
- Gweld 1,788 o gyfrifon yn cael eu creu gan gwsmeriaid newydd yn y cyfnod: 735 ar ran busnesau, 389 ar ran elusennau a 664 gan unigolion.
- Caerdydd (131) oedd yr ardal yng Nghymru gyda'r nifer fwyaf o gyfrifon newydd yn cael eu creu ar ran busnesau ac elusennau, gyda Gwynedd yn ail (89) a Phowys (75) yn drydydd.
- Crëwyd cyfrifon newydd gan 158 o fusnesau ac elusennau y tu allan i Gymru.

Fe aeth staff ati hefyd i hyrwyddo'r gwasanaeth drwy bartneriaid a chyrff eraill mewn amryw ddigwyddiadau. Roedd y rhain yn cynnwys sioeau teithiol rhanbarthol Croeso Cymru, cyflwyniad i fusnesau a drefnwyd gan Llwyddo'n Lleol, a chyflwyniad gan yr Urdd yn y Trallwng wrth baratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd ym Meifod.

### *Mwy na geiriau 2022-27*

Bwriad *Mwy na geiriau*, cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer cryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal, yw sicrhau bod sefydliadau yn cydnabod bod iaith yn rhan gynhenid o ofal, a bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig yn rhagweithiol i'r bobl sydd eu hangen.

Lansiwyd cynllun newydd *Mwy na geiriau 2022-27* ym mis Awst 2022. Mae'r cynllun wedi'i osod yn y cyd-destun bod Cymraeg yn perthyn i ni i gyd ac y dylid ei hymgorffori mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru, fel bod unigolion yn derbyn gofal sy'n diwallu eu hanghenion iaith heb orfod gofyn amdano. Cyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar y cynllun ym mis Rhagfyr 2023 i edrych ar ei flwyddyn gyntaf (Awst 2022-Awst 2023).

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cymerodd uwch-arweinwyr o bob rhan o'r sector iechyd a gofal ran yn y rhaglen *Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog*, sy'n gweithio tuag at wreiddio ysbryd *Cymraeg 2050* mewn diwylliant a pholisïau sefydliadol. Gosodwyd amcanion perfformiad personol ar gyfer cadeiryddion byrddau'r GIG a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Nod yr amcanion oedd bod y sefydliadu yn dangos sut maent wedi arwain mewn ffordd sy'n prif-ffrydio'r Gymraeg mewn cynlluniau a gwasanaethau. Cyflwynwyd hefyd y Ddyletswydd Ansawdd, gyda'r canllawiau statudol yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg a chynllun *Mwy na geiriau*.

Mae llawer o'r staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu siarad peth Cymraeg ond heb yr hyder i'w defnyddio. Yn ystod y flwyddyn, bu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn datblygu rhaglen dysgu Cymraeg i gefnogi cydweithwyr i ennyn hyder i ddefnyddio'u Cymraeg.

I gyd-fynd â'r cwrs ymwybyddiaeth iaith gorfodol, a lansiwyd y llynedd ar gyfer y GIG, eleni lansiodd Gofal Cymdeithasol Cymru fodiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i helpu pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant i ddysgu mwy am y Gymraeg a gweithio'n ddwyieithog.

Gan adlewyrchu'r rhan bwysig sydd gan dechnoleg i'w chwarae o ran cynyddu'r rhyngweithio rhwng cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol, sicrhawyd fod ap y GIG, sy'n cynnwys ystod o nodweddion defnyddiol i helpu'r cyhoedd i ryngweithio gyda'r GIG, ar gael yn ddwyieithog.

Sefydlwyd Bwrdd Cynghori i fonitro a chraffu ar y cynnydd gyda *Mwy na geiriau*. Cyfarfu'r bwrdd â chynrychiolwyr grwpiau iechyd a gofal cymdeithasol, gyda'r trafodaethau'n canolbwyntio ar yr angen i gryfhau darpariaeth Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol. Mae'r bwrdd yn gweithio gyda Llais i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal yn gallu cyfrannu at waith *Mwy na geiriau*.

Er mwyn cydnabod y rheiny sy'n arwain y gad o ran ystyried y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau, cafodd y Gymraeg ei chynnwys mewn dau o gategorïau Gwobrau'r GIG 2024 – sef Gofal sy'n canolbwyntio ar yr Unigolyn a Gofal Teg. Llwyddodd un sefydliad i gyrraedd y rhestr fer a chyhoeddir yr enillwyr mewn seremoni wobrwyo yn yr hydref.

## 8. Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

Mae cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn hanfodol er mwyn cyrraedd ein targed o ddyblu defnydd dyddiol o'n hiaith. Gan nad yw'r Gymraeg yn iaith fwyafrifol ledled Cymru, rhaid cynllunio i greu, gwarchod ac ehangu cyfleoedd a gofodau lle gallwn ddefnyddio'n Cymraeg gyda'n gilydd.

Un math o ofod uniaith Gymraeg yr ydym wedi cynyddu ein hymwneud ag ef yw mudiadau cydweithredol. Mae'r rhain hefyd, wrth gwrs, yn cynnig cyfleoedd gwaith a chyfraniad i'r economi, ac weithiau'n cyflawni swyddogaeth gymdeithasol bwysig, a hyn oll yn Gymraeg. Mae rhagor o fanylion am ein gwaith yn y maes hwn i'w canfod yn yr adran Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg isod.

### Grantiau

Yn ystod 2023-24, dyrannwyd grantiau i 43 o sefydliadau o dan y Grant i Hybu a Hwyluso Defnydd o'r Gymraeg er mwyn cynyddu'r defnydd o'n hiaith ar lefel gymunedol ac yn genedlaethol. Bwriad y cyllid hwn yw galluogi sefydliadau i ysgogi, datblygu a chynnal amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau i blant a phobl ifanc er mwyn creu pont rhwng addysg ffurfiol a defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Mae gwaith sefydliadau megis yr Urdd, Mudiad y Clybiau Ffermwyr Ifanc, y mentrau iaith a'r Eisteddfod Genedlaethol oll yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc 11-25 oed ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Dyma rai enghreifftiau:

- Mae'r rhwydwaith o 21 o fentrau iaith yn cynnal ystod eang o weithgareddau ar draws ein cymunedau, yn seiliedig ar dystiolaeth o'r

angen yn eu hardaloedd. Yn ystod y flwyddyn adrodd, rhoddwyd pwyslais ar rymuso'r cymunedau i ddatblygu syniadau a gweithgareddau eu hunain er budd y Gymraeg.

- Cynhaliwyd gŵyl Tafwyl, sef gŵyl Gymraeg Menter Caerdydd, ym Mharc Biwt y ddinas yn ystod y flwyddyn adrodd. Llwyddodd yr ŵyl i ddenu miloedd yn ystod y penwythnos, ac mae'r digwyddiadau ymylol hefyd yn parhau i fynd o nerth i nerth.
- Dyrannwyd grantiau i 54 o bapurau bro yn ystod 2023-24, gyda nod penodol i geisio cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, denu gwirfoddolwyr a cyhoeddi'n ddigidol.
- Cynhaliodd Merched y Wawr raglen lawn ac amrywiol o weithgareddau, gyda dros 60,000 yn mynychu mewn cymunedau ledled Cymru. Canolbwyntiodd eu prosiectau ar yr ardaloedd a oedd yn noddi ein prif wyliau e.e Llanymddyfri ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, prosiect Dinasoedd a oedd â'r nod o ddod a'r Wlad a'r Ddinas yn un yn y Sioe Frenhinol, a Llwybrau yn Llŷn ac Eifionydd ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol.

**Siaradwyr Cymraeg newydd**

Drwy'r cynllun Cefnogi Dysgwyr, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn y gymuned i ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg newydd ddefnyddio'u sgiliau.

Mae'r Ganolfan yn parhau i gydlynu'r cynllun Siarad er mwyn cefnogi dysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg gyda siaradwyr mwy hyderus mewn cyd-destun anffurfiol. Nod y cynllun yw magu hyder dysgwyr drwy ddarparu cyfleoedd am sgwrs anffurfiol. Mae'r cynllun Siarad yn tyfu'n flynyddol, gyda dros 350 o barau'n weithredol yn ystod 2023-24.

Mae'r Ganolfan hefyd yn gweithredu cynllun newydd o'r enw Hapus i Siarad, mewn partneriaeth â'r mentrau iaith. Y nod yw sicrhau bod siaradwyr newydd yn cael cyfle i ddefnyddio'u Cymraeg yn eu cymunedau.

**Eisteddfod yr Urdd**

Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus eto yn 2023 yn Sir Gaerfyrddin. Gan adeiladu ar ein cefnogaeth flaenorol i alluogi'r Eisteddfodau i gynnig tocynnau am ddim i deuluoedd incwm is, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg gyllid ychwanegol un-tro gwerth £150,000 i'r Urdd i gynnig mynediad am ddim i deuluoedd cymwys. Dosbarthwyd bron i 9,000 o docynnau drwy'r cynllun, a wnaeth alluogi nifer o deuluoedd i fynychu Eisteddfod yr Urdd am y tro cyntaf yn sgil y gefnogaeth ychwanegol hon.

Yn ystod yr Eisteddfod yr Urdd 2022, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg fuddsoddiad o £200,000 y flwyddyn dros gyfnod o bum mlynedd i ailsefydlu Theatr Ieuenctid yr Urdd. Y flwyddyn ganlynol, ym mis Medi 2023, llwyfannodd Y Cwmni, sef Theatr Ieuenctid yr Urdd, ei gynhyrchiad cyntaf ers ail-lansio. Roedd Deffro'r Gwanwyn yn gynhyrchiad llwyddiannus dros ben a oedd yn

rhoi profiad cefn llwyfan a pherfformio i nifer o bobl ifanc dawnus o bob cwr o'r wlad.

### Chwaraeon yr Urdd

Mae darpariaeth chwaraeon yr Urdd yn cyrraedd miloedd o blant a phobl ifanc yn flynyddol. Yn ystod y flwyddyn adrodd, derbyniodd yr Urdd gyllid gan Chwaraeon Cymru yn ogystal â chyfraniad fel rhan o'u grant craidd *Cymraeg 2050*. Mae'r cyllid gan Lywodraeth Cymru yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc ledled Cymru gymryd rhan mewn chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynllun yn cynnig cyfleoedd helaeth ar draws amrywiol chwaraeon gan gynnwys pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd, gymnasteg a gweithgareddau aml-sgiliau.

### Yr Eisteddfod Genedlaethol

Cafwyd Eisteddfod i'w chofio ym Moduan, Llŷn ac Eifionydd yn 2023, gyda'r Gymraeg yn cael ei harddangos ar ei gorau drwy gyfrwng ein diwylliant unigryw. Yn debyg iawn i'r gefnogaeth i Eisteddfod yr Urdd, darparwyd cyllid ychwanegol i'r Eisteddfod Genedlaethol hefyd allu cynnig mynediad am ddim i deuluoedd incwm isel yn 2023.

Rydym yn parhau i gydweithio â'r Eisteddfod i sicrhau bod effaith yr ŵyl ar y Gymraeg a chymunedau yn cychwyn yn syth wedi i'r Eisteddfod gyhoeddi ei leoliad nesaf. Yn ystod y cyfnod prysur o baratoi at Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd, trefnodd yr Eisteddfod sawl digwyddiad cymunedol yn Rhondda Cynon Taf wrth iddynt baratoi i lwyfannu Eisteddfod drefol ym Mhontypridd ym mis Awst 2024. Bydd rhagor am yr eisteddfod hon yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

### Dydd Miwsig Cymru

Cynhaliwyd Dydd Miwsig Cymru (DMC) am y nawfed tro ar 9 Chwefror 2024. Ers cychwyn yr ymgyrch, y prif nod yw cyflwyno cerddoriaeth Gymraeg i gynulleidfa newydd. Mae hyn wedi esblygu i gydnabod pwysigrwydd annog digwyddiadau cymunedol lle gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Cynhaliwyd dros 30 o ddigwyddiadau Cymraeg ledled Cymru fel rhan o'r ymgyrch, yn amrywio o gigs mewn tafarndai cymunedol i gigs mawr yn ein dinasoedd. Drwy gydweithio â'r lleoliadau cymunedol unwaith eto, rydym wedi sicrhau gwaddol diwylliannol i ddigwyddiadau Dydd Miwsig Cymru yn y cymunedau, gyda phob un o'r lleoliadau a gymerodd ran yn cadarnhau y byddent yn cynnal digwyddiad cerddorol Cymraeg eto yn y dyfodol. Roedd y cyfle i weithio gyda chwmni proffesiynol i hyrwyddo'r gigs yn brofiad gwerthfawr o safbwynt hyrwyddo digwyddiadau, gan hefyd drosglwyddo sgiliau gwerthfawr i'r gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y tafarndai.

Profodd yr ymgyrch eto i fod yn gyfle i weithio gyda phartneriaid dros y cyfryngau cymdeithasol ac yn eu gweithleoedd, gyda Chlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, Dŵr Cymru, Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Gŵyl Green Man ac eraill yn cymryd rhan.

# Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Mae'r drydedd thema yn cefnogi'r ddwy thema flaenorol er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy greu amodau addas a meithrin amgylchedd lle gall ein hiaith a'i siaradwyr ffynnu.

Er bod gennym ni dargedau ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr a'r nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg, ni chaiff y naill na'r llall eu cyflawni heb seilwaith addas.

## 9. Y gymuned a'r economi

Ym mis Hydref 2022, fe wnaeth Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r *Cytundeb Cydweithio*, gyhoeddi £11m ar gyfer cam 2 rhaglen ARFOR. Y bwriad yw adeiladu ar brosiectau blaenorol a chanfyddiadau gwerthusiad annibynnol rhaglen ARFOR 1 ynghyd ag ychwanegu gwerth i raglenni economaidd ac ieithyddol sydd eisoes ar waith. Mae'r rhaglen yn weithredol o fewn ffiniau awdurdodau lleol Ceredigion, Gwynedd, Sir Gâr ac Ynys Môn.

Prif nod ARFOR 2 yw sicrhau ffyniant economaidd yng nghadarnleoedd y Gymraeg. Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd y prosiectau canlynol eu sefydlu a'u rhoi ar waith:

- Llwyddo'n Lleol – i greu cyfleoedd i bobl a theuluoedd ifanc aros neu ddychwelyd i'w cymunedau cynhenid – gan eu cefnogi i lwyddo'n lleol drwy fentro neu ddatblygu gyrfa a sicrhau bywoliaeth sydd yn cyflawni eu dyheadau.
- Cymunedau Mentrus – drwy fynd ati i greu cymunedau sy'n mentro drwy gefnogi sefydliadau masnachol a chymunedol sy'n anelu at gadw a chynyddu cyfoeth yn lleol gan fanteisio ar hunaniaeth a rhinweddau unigryw eu hardaloedd.
- Cronfa Her ARFOR – gyda'r nod o annog cydweithio drwy ddysgu a gwella'n barhaus – drwy sefydlu meddylfryd dysgu drwy wneud a gwella parhaus, dysgu o weithgaredd mewn un ardal ac yna ei ymestyn i ardaloedd eraill ond drwy ei deilwra i amgylchiadau lleol.
- Bwrlwm ARFOR – drwy gryfhau hunaniaeth cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg – drwy gefnogi defnydd a gwelededd y Gymraeg ac annog naws am le a theyrngarwch lleol.
- Gwersi a ddysgwyd – datblygu'r cysyniad o ddysgu gwersi'n barhaus gan rannu arfer da er mwyn ehangu ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng yr economi a'r iaith Gymraeg gan ddeall yn well yr ymyraethau economaidd a all wneud gwahaniaeth i ffyniant y Gymraeg a chyfrannu at amcanion *Cymraeg 2050*.

### Amaethyddiaeth

Cafodd Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 17 Awst 2023, a sefydlodd fframwaith o bedwar amcan ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy, er mwyn cefnogi a rheoleiddio amaethyddiaeth yng Nghymru i'r dyfodol.

Un o amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yw: *"Cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd".*

Mae'r amcan hwn yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg o fewn ein sector amaethyddol. Yn ogystal, yn unol â'r pŵer i ddarparu cymorth yn y Ddeddf, mae un o'r dibenion rhestredig yn ei gwneud yn bosibl darparu cymorth i'r sector ar gyfer "*cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd*", a thrwy hynny gefnogi camau gweithredu y gall y sector eu cymryd tuag at gyflawni'r diben hwn.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ystyried beth yw'r ffordd orau y gall unrhyw gymorth amaethyddol gyfrannu at amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy i'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys gweithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys dyletswydd i nodi dangosyddion a thargedau i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy, yn ogystal â chyhoeddi adroddiadau effaith rheolaidd sy'n manylu ar y ffordd y mae'r cymorth wedi cyflawni'r dibenion y'i darparwyd ar eu cyfer, ac i ba raddau, a sut y mae wedi cyfrannu at yr amcanion ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ffurfiol terfynol ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Cadw ffermwyr i ffermio. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 7 Mawrth 2024, a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Gorffennaf. Rydym yn parhau i weithio gydag ystod o randdeiliaid i fireinio a phrofi cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, cyn i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau terfynol. Caiff y canfyddiadau eu cyhoeddi yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

### Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

Mae ein *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* yn cynnwys ystod o ymyraethau sy'n ceisio mynd i'r afael â materion economaidd, tai, datblygu cymunedol a chynllunio ieithyddol cymunedau daearyddol sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae nifer o'r cymunedau hyn wedi gweld galw mawr am eiddo i'w ddefnyddio fel ail gartrefi sydd wedi codi pryderon am fforddiadwyedd a dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol ffyniannus. Ein nod yw grymuso'r cymunedau Cymraeg eu hiaith sy'n wynebu heriau cymdeithasol, economaidd ac ieithyddol niferus i gymryd cyfrifoldeb a chanfod datrysiadau eu hunain i faterion sy'n bygwth cynaladwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, gwnaed y canlynol drwy ymyraethau'r *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*:

- Drwy gronfa grantiau bach Perthyn, rhoddwyd cefnogaeth o hyd at £12,000 i 27 o grwpiau cymunedol i sefydlu mentrau cydweithredol a chynlluniau tai

wedi'u harwain gan y gymuned. Y nod yw cefnogi'r economi leol, gwneud tai yn fwy fforddiadwy, ynghyd â sicrhau bod cymunedau lleol yn gynaliadwy i'r dyfodol.

- Mae cynllun Perthyn yn cynnig gwerth ychwanegol i'r gefnogaeth sy'n cael ei chynnig gan Busnes Cymdeithasol Cymru a Chymunedau'n Creu Cartrefi drwy fynd ati'n benodol i adeiladu capasiti mewn cymunedau.
- Mae'r cynlluniau a ariannwyd yn cynnwys cynllun Menter yr Eagles yn Llanuwchllyn a Menter Tafarn y Vale, Dyffryn Aeron lle llwyddodd y ddwy gymuned i brynu a sicrhau dyfodol llewyrchus i'r tafarndai lleol. Cefnogwyd hefyd Fenter y Tŵr ym Mhwllheli sydd wedi prynu'r gwesty ac wedi dechrau adnewyddu'r adeilad eiconig ynghanol y dref. Ariannwyd hefyd brosiect ynni cymunedol Egni Trefin, sy'n datblygu cynlluniau ynni adnewyddol yn Nhrefin, Sir Benfro.
- Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu gydag arwerthwyr tai ardal beilot fforddiadwyedd ac ail gartrefi Dwyfor. Roedd y digwyddiad yn gyfle i ddod ag arwerthwyr tai lleol a rhanddeiliaid y peilot ynghyd i rannu gwybodaeth am gynlluniau'r peilot a'r *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*, ynghyd â chael mewnbwn gan yr arwerthwyr i'r cynlluniau hyn.

Ar Ddydd Gŵyl Dewi 2024, lansiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg y Cynllun Llysgenhadon Diwylliannol. Mae'r cynllun yn gyfres o fodiwlau sy'n hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'n diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg yn gymunedol ac ymysg newydd-ddyfodiad. Mae'r modiwlau hyn yn cynnwys y themâu canlynol:

- Hanes cynnar y Gymraeg
- Gwybodaeth ddefnyddiol i newydd-ddyfodiaid ac ymwelwyr am y Gymraeg
- Addysg cyfrwng Cymraeg

Prif fwriad y cwrs yw adeiladu a grymuso rhwydwaith o Lysgenhadon i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a helpu pobl i integreiddio i'w cymunedau newydd.

Byddwn yn ymchwilio ymhellach i faterion diogelu enwau lleoedd Cymraeg, gan gynnwys enwau hanesyddol, tirweddol ac enwau tai. Gweler mwy o fanylion yn adran Enwau Lleoedd isod.

**Y Comisiwn Cymunedau Cymraeg**

Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg Bapur Safbwynt a oedd yn crynhoi ei ganfyddiadau cychwynnol. Bwriad y Comisiwn yw gwneud argymhellion polisi cyhoeddus gyda'r nod o gryfhau cymunedau Cymraeg. Mae'r Comisiwn yn cael ei gadeirio gan Dr Simon Brooks ac mae'n cynnwys deg aelod sy'n cynrychioli meysydd polisi pwysig, gan gynnwys yr economi, tai, addysg, llywodraeth leol, adfywio cymunedol a chynllunio ieithyddol.

Cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad terfynol ac argymhellion i Lywodraeth ym mis Awst 2024.

## Fforddiadwyedd, ail gartrefi a'r Gymraeg

Mae'r *Rhaglen Lywodraethu* yn cynnwys nifer o ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â fforddiadwyedd, ail gartrefi a'r Gymraeg, er enghraifft:

- Adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu.
- Cyhoeddi Papur Gwyn sy'n cynnwys cynigion ar gyfer hawl i gartref digonol, gan gynnwys rhenti teg a dulliau newydd o wneud cartrefi yn fforddiadwy i'r rhai sydd ar incwm lleol.
- Bwrw ymlaen â chamau i osod terfyn ar nifer yr ail gartrefi, dod â rhagor o gartrefi o dan berchnogaeth gyffredin a thrwyddedu llety gwyliau i'w osod.
- Cefnogi tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol.
- Datblygu mesurau treth, cynllunio a thai effeithiol pellach i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwarchod.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn sawl maes, yn unol â dull triphlyg Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â chwestiwn ail gartrefi, gan weithredu'r pecyn ymyraethau mwyaf cynhwysfawr yng nghyd-destun y DU.

Ehangodd Llywodraeth Cymru bwerau awdurdodau lleol i godi cyfradd bremiwm, yn ôl eu disgresiwn, ar y dreth gyngor ar ail gartrefi ac eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir. O 1 Ebrill 2023, codwyd yr uchafswm y gall awdurdodau lleol ddewis ei godi o 100% i 300%. O fis Ebrill 2024, cynyddodd saith awdurdod lefel eu premiwm, ac mae saith arall wedi cyflwyno premiymau am y tro cyntaf – mae 18 o 22 awdurdod lleol yn codi premiymau erbyn hyn ar y naill fath o eiddo neu'r llall, neu ar y ddau fath.

Newidiwyd y rheolau ynghylch llety gwyliau tymor byr, sy'n golygu bod rhaid i'r llety fod ar gael i'w osod am o leiaf 252 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis er mwyn talu ardrethi annomestig (yn hytrach na'r dreth gyngor), a'i fod yn cael ei osod am o leiaf 182 o ddiwrnodau yn ystod y cyfnod hwnnw. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod perchnogion yn gwneud cyfraniad teg i'r gymuned leol.

Rydym hefyd wedi cyflwyno newidiadau arloesol i'r system gynllunio; sefydlodd y rhain dri dosbarth defnydd cynllunio newydd: prif gartref, ail gartref a llety gwyliau tymor byr. Bellach gall awdurdodau cynllunio lleol, lle mae ganddynt dystiolaeth a phan fyddant wedi cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, ei gwneud yn ofynnol i berchnogion eiddo gael caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd o un dosbarth i'r llall. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i sefydlu cynllun cofrestru a thrwyddedu statudol ar gyfer pob darparwr llety i ymwelwyr yng Nghymru.

Rydym wedi bod yn falch i hyrwyddo datblygiadau tai fforddiadwy yn rhannau mwyaf gwledig Cymru drwy ein rhaglen Swyddogion Galluogi Tai Gwledig. Darperir cyllid i gefnogi chwe rhaglen Swyddogion Galluogi Tai Gwledig ar draws ardaloedd mwyaf gwledig Cymru. Mae'r rhaglenni yn chwarae rôl hollbwysig yn yr ardaloedd hyn, gan weithio gyda phartneriaid i nodi anghenion llety lleol o fewn cymunedau.

### Peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd

Gan weithio gyda phartneriaid fel Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a chymdeithasau tai Adra a Grŵp Cynefin, rydym wedi sefydlu ac integreiddio cynllun peilot yn Nwyfor, Gwynedd. Nod y peilot yw profi nifer o ymyraethau ac asesu eu heffeithiolrwydd wrth reoli ail gartrefi a'u heffaith ar fforddiadwyedd.

Rydym wedi teilwra ac wrthi'n treialu rheolau newydd yn y cynllun peilot ar gyfer cynllun rhannu ecwiti Cymorth Prynu ac mae 14 o gartrefi eisoes wedi eu prynu yn yr ardal, sy'n llawer uwch na'r ffigurau a welwyd cyn y peilot. Mae Cyngor Gwynedd wedi ymgynghori ar ddefnyddio cyfarwyddyd cynllunio Erthygl 4. Rydym wedi ymrwymo cymorth ariannol ar gyfer cyfarwyddyd Erthygl 4 Cyngor Gwynedd yn ardal beilot Dwyfor, fel y gellir gwerthuso'n annibynnol yr adnodd a goblygiadau ymarferol gosod cyfarwyddyd a rhannu'r hyn a ddysgwyd ledled Cymru. Mae Parc Cenedlaethol Eryri hefyd wedi ymgynghori ar y cynnig ar gyfer cyfarwyddyd Erthygl 4.

Bydd gwerthusiad annibynnol yn rhoi adroddiad ar beilot Dwyfor. Caiff y canfyddiadau eu rhannu'n barhaus nes cyhoeddi'r adroddiad terfynol yn 2026. Bydd y gwerthusiad yn ystyried effeithiolrwydd yr ymyraethau ac yn ein hwyluso i rannu arferion da a'r hyn a gaiff ei ddysgu gydag ardaloedd eraill sy'n wynebu heriau tebyg.

### Y Gymraeg a chydraddoldeb

Yn yr un modd ag y mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn un hirdymor, mae gan y Llywodraeth strategaethau traws lywodraethol hirdymor ym maes cyfiawnder cymdeithasol hefyd. Ar y cyd â phartneriaid *Cymraeg 2050,* mae'r Llywodraeth wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda'r camau gweithredu a'r ymrwymiadau sydd wedi'u cynnwys yn ein *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* a'n *Cynllun Gweithredu LHDTC+.* Mae *Cymraeg 2050* wedi'i wreiddio yng ngwead y cynlluniau cydraddoldeb hyn a'r bwriad yw iddynt gyd-fodoli ac atgyfnerthu ei gilydd. Gweler yr adroddiadau cynnydd perthnasol i weld diweddariadau manylach ar ein gwaith yn y meysydd hyn: *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol – Flwyddyn yn ddiweddarach* / *Cynllun Gweithredu LDHTC+: diweddariad ar gynnydd*.

## 10. Diwylliant a'r cyfryngau

Rydym yn gweithio ar draws amrywiol sectorau a meysydd polisi i weithredu *Cymraeg 2050*. Yn hyn o beth, mae pob un o'r cyrff a noddir gennym yn y sector diwylliant a chwaraeon wedi ymrwymo i gefnogi ein targed i gynyddu defnydd iaith a chyrraedd y miliwn erbyn 2050.

Rydym eisiau gweld a chlywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n eang mewn diwylliant poblogaidd ym mhob un o'i gyfryngau celfyddydol ac mewn llenyddiaeth, theatr, ffilm a theledu. Mae'r defnydd o'r Gymraeg gan fodelau rôl fel mabolgampwyr, cerddorion, actorion, a ffigurau a sefydliadau amlwg eraill yn fodd i godi statws y Gymraeg fel iaith fyw.

**Brand Cymru Wales**

Mae’r Gymraeg yn rhan ganolog o frand Cymru Wales, ac wedi cael ei defnyddio’n helaeth eto eleni i hybu Cymru a denu twristiaeth a buddsoddiadau. Yn y sector twristiaeth, mae hyn yn cynnwys annog busnesau i sicrhau naws am le cryf yn eu darpariaeth, ac mae defnyddio’r Gymraeg yn ganolog i hyn. Mae’r Gymraeg hefyd wedi cael ei defnyddio fel un o’n prif ymgyrchoedd twristiaeth, Addo, i annog pobl i fod yn gyfrifol tra’n ymweld â Chymru. Mae Addo yn gofyn i ymwelwyr a phreswylwyr wneud addewid i Gymru, sy’n cynnwys gofyn i bobl barchu a dathlu ein hiaith a’n diwylliant unigryw. Rydym hefyd yn arwain ar ymgyrch lwyddiannus Gŵyl Dewi, sy’n gofyn i bobl ym mhob man wneud y pethau bychain, ac sy’n hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru ar draws y byd.

Rydym yn parhau i gefnogi busnesau i adlewyrchu gwerthoedd y brand yn eu gwaith. Fe wnaethom ddefnyddio’r Gymraeg mewn ymgyrchoedd blaenllaw i hyrwyddo Cymru hefyd. Yn ystod 2023-24, ein prif ymgyrch oedd Llwybrau, sy’n annog pobl i ddilyn llwybrau gwahanol ar eu taith yng Nghymru, boed hynny ar lwybr bwyd, celfyddyd neu antur. Mae’r gair Llwybrau yn flaenllaw yn ein holl ddeunydd marchnata, ac mae prif logo’r ymgyrch sy’n cael ei anfon at randdeiliaid yn y sector twristiaeth i’w ddefnyddio ar eu hymgyrchoedd hwythau yn arwain gyda’r gair Cymraeg.

Rydym wedi sefydlu partneriaethau gyda labeli recordiau Cymraeg er mwyn ein galluogi i ddefnyddio cerddoriaeth Gymraeg ar rai o’r fideos yr ydym yn eu creu ar gyfer ein sianelau cymdeithasol, i roi llwyfan ehangach i gerddoriaeth Gymraeg, ac rydym yn canolbwyntio ar gyflwyno mwy fyth o Gymraeg yn gyffredinol ar ein sianelau cymdeithasol. Rydym yn defnyddio enwau lleoedd Cymraeg yn unig gan amlaf ar ein sianelau cymdeithasol erbyn hyn, yn ogystal ag ar ein gwefan, gan roi’r enw Saesneg mewn cromfachau os oes angen.

Byddwn yn parhau i wneud mwy i roi llwyfan i’r Gymraeg yn ein hymgyrchoedd dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn ein hymgyrchoedd marchnata.

Yn unol â thema Dilysrwydd *Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol Cymru*, anogir pob digwyddiad sy'n cael cyllid grant gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd greadigol a chynhwysol.

Yn 2023, hyrwyddwyd y Gymraeg a diwylliant Cymru gan lawer o ddigwyddiadau a gafodd eu cefnogi, drwy'r artistiaid a berfformiodd, gan gynnwys gwyliau cerddoriaeth Gottwood, Focus Wales, Sŵn a Llais. Ochr yn ochr ag artistiaid a oedd yn canu yn Gymraeg, cynhaliwyd sgyrsiau pwrpasol gan Lleisiau Eraill Aberteifi, megis 'Who we are: Culture, Identity and Diaspora' gyda phanel yn cynnwys Prif Weinidog Cymru, â chyfleuster cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg a'r Wyddeleg fel bod modd i siaradwyr ddefnyddio eu dewis iaith.

Am y drydedd flwyddyn, defnyddiwyd thema Ysbrydoli, Cystadlu, Joio yn ninas Abertawe ar gyfer Cyfres Para-Triathlon y Byd, gan arddangos y Gymraeg ochr yn ochr â brandiau byd-eang megis Ironman i ymwelwyr a chystadleuwyr rhyngwladol am gyfnod estynedig. Ym mis Ionawr 2024, cynhaliodd Cymru gystadleuaeth

Cwpan Byd Ffensio Cadair Olwyn – roedd yr holl arwyddion yn ddwyieithog, a mabwysiadodd ffederasiwn y byd fersiwn ddwyieithog o logo'r digwyddiad. Roedd sesiynau briffio'r athletwyr yn cynnwys rhai cyfarchion yn Gymraeg, yn ogystal â gwefan y digwyddiad ar gyfer cystadleuwyr ac ymwelwyr o dramor.

**Amgueddfa Cymru**

Mae'r Gymraeg yn rhan gynhenid o dreftadaeth a diwylliant Cymru – o'r herwydd, mae gan Amgueddfa Cymru rôl allweddol o ran datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth pobl o hanes yr iaith a diwylliant Cymru, yn ogystal â defnyddio a dathlu'r iaith yn eu gwaith.

Yn ystod 2023-24, mae'r Amgueddfa wedi cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru newydd, wedi datblygu gweithgareddau i ysgolion i normaleiddio a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac wedi ymgorffori dull amlieithog yn llais ei brand.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn adrodd oedd arddangosfeydd Geiriau Diflanedig a fu'n archwilio'r berthynas rhwng iaith a'r byd, a phŵer natur i ddeffro'r dychymyg. Datblygwyd y cynllun gydag Oriel y Parc a'r Ysgwrn a'i threfnu gan Compton Verney, gyda Hamish Hamilton a Llyfrau Penguin. Am y tro cyntaf erioed, cafodd gwaith celf gwreiddiol Jackie Morris ei arddangos ochr yn ochr â cherddi Saesneg Robert Macfarlane a cherddi Cymraeg Mererid Hopwood. Mae'r prosiect yn ailgyflwyno geiriau o fyd natur, yn tynnu sylw at fioamrywiaeth ac yn arddangos y gwaith a wneir i geisio atal ei dirywiad.

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**

Mae'r gwaith ar lunio a chynnal y rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru yn parhau i fod yn brosiect sy'n cael blaenoriaeth. Bellach, mae dros 700,000 o enwau o bron i 1,400 o wahanol ffynonellau ar y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol. Mae awdurdodau lleol a chyrff cynllunio perthnasol eraill yn dal i droi at y Rhestr wrth enwi datblygiadau newydd.

Cefnogwyd y dull hwn o warchod a diogelu enwau lleoedd cymunedol ymhellach yn ystod 2023-24 drwy amrywiol brosiectau cymunedol megis:

- Lansio Prosiect Treftadaeth Cymreig-Asiaidd newydd: Dathlu ac Archifo Profiadau Asiaid Uganda yn ystod Eisteddfod Genedlaethol 2023. Mae'r prosiect hwn yn arddangos sut mae gweithgareddau diwylliannol a chrefyddol wedi cyfrannu at amrywiaeth yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru, ac yn dangos y cymhathu a'r cydweithredu sydd wedi digwydd o fewn cymunedau Asiaidd lleol er mwyn cofnodi straeon Asiaid Uganda – yn enwedig y rheiny a ddaeth i wersyll adsefydlu Tonfanau, Tywyn, Meirionnydd ar ôl cael eu halltudio o Uganda ym 1972.
- Ymgysylltu cymunedol, sydd wedi cynnwys nifer o deithiau tywys a sgyrsiau yn Gymraeg, gan ystod o grwpiau o Angylion y Wawr i blant ysgol.
- Yn unol â thema hyrwyddo Cymru ddwyieithog, trafodwyd nifer o brosiectau ar draws amrywiol blatfformau, gan gynnwys prosiectau cymunedol Pendinas ac enwau lleoedd Cymru, yn ogystal â phrosiect Dan Ddirgel Ddaear ynghylch safle Gradd II* Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch,

ysgolion Cymdeithas yr 20fed Ganrif (C20) yng Nghymru ac adeiladau C20 yn fwy cyffredinol.

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Mae arddangosfeydd y Llyfrgell yn cynnig gwybodaeth sy’n ennyn diddordeb yn y Gymraeg a'i hanes drwy gynnig cyflwyniad i hanes, cymdeithas a diwylliant Cymru.

Mae cynllun gwirfoddoli y Llyfrgell yn cynnig tasgau gwirfoddoli yn y Gymraeg wyneb yn wyneb neu ar-lein, gan gynnwys rhai sy’n addas ar gyfer siaradwyr newydd.

Mae holl weithgareddau Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell ar gael yn Gymraeg, yn ddwyieithog, neu’n Saesneg gyda pheth cynnwys Cymraeg. Pan fod ysgolion yn gofyn am ddarpariaeth drwy gyfrwng Saesneg, bydd staff yn sicrhau eu bod yn cyflwyno termau Cymraeg, a bod yr iaith i'w chlywed gydol y sesiwn.

Mae Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell yn cynnig sesiynau dysgu sy'n cyflwyno cyd-destun hanesyddol, cymdeithasol a diwylliannol yr iaith Gymraeg. Mae'r rhain yn cael eu targedu’n benodol at bobl o bob oedran sy’n dysgu'r iaith. Maen nhw hefyd yn gyfle i ddisgyblion ymweld â gweithle Cymraeg a gweld y Gymraeg ar waith fel iaith waith. Mae rhai ysgolion ble mae’r Gymraeg yn ail iaith wedi parhau i drefnu ymweliadau â’r Llyfrgell yn benodol er mwyn i ddisgyblion gael ymarfer yr iaith.

Mae holl adnoddau dysgu print a digidol y Llyfrgell ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn ystod 2024, mae Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell wedi cyhoeddi deunyddiau yn Gymraeg i gefnogi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol y Llywodraeth, gan gynnwys adnoddau dwyieithog ar y frwydr yn erbyn Apartheid, ac adnodd am chwedlau Cymreig y Sipsiwn a thraddodiadau cymunedau teithwyr a Romani.

Mae Archif Ddarlledu Cymru yn cynnig cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg mewn Corneli Clip ar draws Cymru ble gall unigolion fod yn rhan o waith ymchwilio, cynnal rhestrau, dethol, gwirio hawliau, golygu a chyhoeddi. Un enghraifft o brosiect a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn adrodd yw gwirfoddolwyr yn datblygu sgiliau drwy sesiynau hyfforddi yn Llyfrgell Caerfyrddin, ac yn cynhyrchu cartŵn ar y diwedd.

**Chwaraeon Cymru**

<u>**Y Gymraeg mewn chwaraeon**</u>

Mae Chwaraeon Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg wedi parhau i weithio mewn partneriaeth i gefnogi ac annog sefydliadau cenedlaethol yn y sector chwaraeon i ymestyn eu darpariaeth mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae Chwaraeon Cymru yn ystyried y gwaith hwn yn rhan bwysig o'i ddyletswyddau o ran y Gymraeg drwy annog y broses o ddatblygu a hyrwyddo mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn chwaraeon.

Yn 2023, cydnabuwyd Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol chwaraeon cyntaf Cymru mewn perthynas â Chynnig Cymraeg Comisiynydd y Gymraeg. Rhoddwyd y gydnabyddiaeth i Triathlon Cymru ac Undeb Rygbi Cymru i nodi eu hymrwymiad i'r Gymraeg ac i ehangu eu gwasanaethau Cymraeg. Mae Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol a Phartneriaid Cenedlaethol eraill yn gweithio tuag at yr achrediad hwn, ac mae staff Chwaraeon Cymru yn defnyddio proses yr Hyn sy'n Bwysig gyda'u partneriaid i asesu eu parodrwydd gan weithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg.

**Urdd Gobaith Cymru**

Fel elfen allweddol o'i ymrwymiad i'r Gymraeg, mae Chwaraeon Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â rhaglenni helaeth yr Urdd, gan fuddsoddi ynddynt, i sicrhau cyfleoedd i fwynhau chwaraeon a gweithgareddau hamdden drwy'r Gymraeg.

Dyma grynodeb o rywfaint o ddarpariaeth yr Urdd yn ystod 2023-24:

- Clybiau a gweithgarwch allgyrsiol
- Darpariaeth gymunedol drwy gydweithio â sawl partner lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector. Clybiau cymunedol penodol i chwaraeon; clybiau aml-chwaraeon; ymgysylltu â theuluoedd drwy chwaraeon a llythrennedd corfforol; #FelMerch – prosiectau i fenywod a merched; prosiectau gwaddol– yn dilyn digwyddiadau cenedlaethol, fel rygbi 7 bob ochr yn cynnal prosiectau cymunedol; prosiectau â phwrpas penodol o ran amrywiaeth, cynhwysiant ac iaith.
- Gweithgarwch gwyliau ar lefel genedlaethol, gan gynnwys: gwersylloedd aml-chwaraeon wythnosol; gwersylloedd chwaraeon penodol sy'n gweithio ar ddatblygu sgiliau; ymgysylltu â theuluoedd – ystod o weithgareddau mewn canolfannau hamdden a pharciau; fforymau a gweithgareddau #FelMerch; prosiectau partneriaeth, h.y. Fit, Fed and Fun gydag Undeb Rygbi Cymru.
- Cydweithio ar brosiectau cynhwysiant gyda Chwaraeon Anabledd Cymru a phartneriaid eraill ledled Cymru.
- Darpariaeth dysgu nofio drwy'r Gymraeg ar draws Caerdydd a'r Fro a RhCT, a bwriad i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Casnewydd a Wrecsam.
- Cystadleuaeth a digwyddiadau: digwyddiadau rhanbarthol – ysgolion cynradd; digwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol – ysgolion uwchradd a cholegau; cyfleoedd dysgu rhyngwladol; Chwarae yn Gymraeg / Partneriaeth Cwpan Rygbi'r Byd.

Mae Chwaraeon Cymru hefyd wedi cefnogi Mentrau Iaith Cymru i gysylltu â phartneriaid gweithredu er mwyn rhoi menter newydd ar waith i helpu pobl ifanc i fod yn fwy cyflogadwy mewn ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg i gynnig cyfleoedd chwaraeon.

## **Marchnata, cyfathrebu a digidol**

Mae holl e-gyfathrebu cyhoeddus Chwaraeon Cymru a'r deunydd ar ei gyfryngau yn parhau i fod yn ddwyieithog, ac mae newidiadau diweddar yn gwneud y deunydd yn fwy apelgar i gynulleidfa Gymraeg ei hiaith, megis newidiadau fformatio sy'n gwneud testun Cymraeg yn amlwg ar amryw o ddyfeisiau. Caiff unrhyw gylchlythyrau gan bartneriaid hefyd eu llunio'n ddwyieithog.

Mae cyfrifon Cymraeg X a Facebook Chwaraeon Cymru wedi gweld cynnydd sylweddol yn y rhyngweithio a'r ymgysylltu arnynt. Ar y cyfryngau cymdeithasol, mae Chwaraeon Cymru yn integreiddio ymadroddion Cymraeg, megis Llongyfarchiadau a Pob lwc i'w ddeunydd Saesneg er mwyn annog eraill i ddefnyddio'r iaith wrth ddathlu chwaraeon Cymru.

### Cyngor Celfyddydau Cymru

Yn ystod ei ail flwyddyn, mae'r Consortiwm Celf Cymraeg wedi canolbwyntio ar weithredu'r 4 maes a nodwyd:

- Cronfa loteri Llais y Lle i dargedu unigolion i ddatblygu defnydd creadigol o'r Gymraeg a pherchnogaeth arni o fewn cymunedau.
- Ymchwilio i anghenion strategol a chyfieithu creadigol y sector creadigol.
- Datblygu a threialu adnodd Synhwyro'r Iaith ar gyfer y sector.
- Cymraeg yn y canol, sy'n rhoi lle canolog i'r Gymraeg mewn datblygiadau creadigol.

Llwyddodd 9 i gael cyllid Llais y Lle yn ystod y flwyddyn gyntaf, a chefnogwyd datblygiad 6 unigolyn arall. Roedd pob prosiect yn canolbwyntio ar ddatblygu defnydd creadigol o'r Gymraeg o fewn cymunedau. Dechreuodd yr ail flwyddyn ym mis Mai 2024, ac roedd 17 ymgeisydd llwyddiannus newydd.

Datblygwyd adnodd Synhwyro'r Iaith gan Ysgogwr y Gymraeg Cyngor y Celfyddydau a'r Consortiwm Cymraeg i gynnig canllawiau a syniadau i ymarferwyr creadigol ar sut i ddefnyddio, cynnwys a chyflwyno'r Gymraeg o fewn eu harferion creadigol. Mae Synhwyro'r Iaith wedi cael ei ddatblygu a'i dreialu ymhellach gan artistiaid Llais y Lle Pontypridd, 12 dysgwr lefel uwch yn Nant Gwrtheyrn, o fewn rhaglenni hyfforddi dysgu creadigol, ac mae'n rhan o brosiect ymchwil gan Brifysgol Caerdydd sy'n edrych ar fethodolegau creadigol i gyflwyno'r Gymraeg fel pwnc mewn ysgolion uwchradd mewn ymateb i'r cwricwlwm newydd.

Ym mis Ionawr, cynhaliwyd Cyfieithu creadigol i ymchwilio i fethodolegau creadigol i gyfieithu ar y pryd mewn lleoliadau perthnasol. Aeth Ysgogwr y Gymraeg Cyngor y Celfyddydau ati i weithio gyda Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru i ddod ag 8 o gyfieithwyr proffesiynol a phrofiadol ynghyd gyda rhai o aelodau'r consortiwm. Mae'r cynlluniau ar gyfer y cam nesaf ar y gweill, i gynnwys Iaith Arwyddion Prydain, yn nealltwriaeth a methodolegau Cyngor y Celfyddydau.

### Y Cyfryngau

Rydym wedi parhau i ymchwilio i gyfleoedd i gefnogi gwasanaethau darlledu Cymraeg a gwasanaethau'r cyfryngau drwy'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd, gan gydnabod y rôl hanfodol y mae'r cyfryngau yn ei chwarae wrth gyrraedd ein nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym wedi cynnal perthynas agos gydag S4C a BBC Cymru, gan gynnwys drwy fframwaith ein Memoranda o Gyd-ddealltwriaeth, gan nodi cyfraniad darpariaeth S4C a Radio Cymru at gyflawni ein huchelgais i gynyddu'r nifer sy'n siarad Cymraeg a chefnogi cyfleoedd i ddefnyddio a mwynhau'r iaith.

Mae Cymru Greadigol wedi parhau i weithio gydag S4C a Ffilm Cymru ar fentrau ffilmiau Cymraeg. Nod Sinema Cymru, menter ar y cyd rhwng S4C a Cymru Greadigol, a weithredir gan Ffilm Cymru, yw datblygu o leiaf dair ffilm nodwedd y flwyddyn, gyda'r bwriad o ddatblygu un ohonynt i gael cyllid i'w gynhyrchu. Dymuniad Sinema Cymru yw rhoi ffilmiau Cymraeg ar y map drwy gyflymu'r broses o greu ffilmiau Cymraeg annibynnol sy'n fentrus, yn anghonfensiynol, ac a allai gael eu rhyddhau i sinemâu rhyngwladol. Cefnogodd y cyllid o £280,000 bedwar prosiect, â hyd at £30,000 o gyllid datblygu yn 2023-24, ochr yn ochr â phecyn hyfforddi ar gyfer darpar-awduron a chynhyrchwyr. Mae gwaith datblygu ar y gweill, a chaiff o leiaf un o'r prosiectau hyn eu dewis i gael ei gynhyrchu'n llawn â chyllid gan S4C a Cymru Greadigol.

Yn 2023-24, mae cyllid cynhyrchu Cymru Greadigol wedi parhau i chwarae rôl bwysig wrth gefnogi cynnwys darlledu Cymraeg ar gyfer y sgrîn. Drwy'r mecanwaith hwn, mae Cymru Greadigol wedi cefnogi nifer o gynyrchiadau Cymraeg a chefn-wrth-gefn, gan gynnwys *Hafiach, Minibuds* a *Cleddau / The One That Got Away*. Yn ystod y cyfnod hwn, mae Cymru Greadigol hefyd wedi darparu cymorth gyda lleoliadau i gynyrchiadau Cymraeg drwy Sgrin Cymru.

Rydym wedi parhau i godi amrywiaeth o faterion yn gyson gyda Llywodraeth y DU ac Ofcom yn ystod y cyfnod hwn i bwysleisio rôl hanfodol darlledu effeithiol o ran cynnal a thyfu'r Gymraeg. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu ar gynigion a nodwyd ym Mil Cyfryngau Llywodraeth y DU, ei Hadolygiad o Fodel Cyllido'r BBC, ac ymgynghoriad Ofcom ar Ddosbarthiad Rhaglenni Teledu i'r Dyfodol. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau, wrth i'r newid yn y dirwedd ddarlledu draddodiadol tuag at fwy o gynnwys ar-lein barhau, bod hawliau siaradwyr Cymraeg yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu ar fwy o sianeli digidol ac ar-lein wrth i'r fframwaith rheoleiddio esblygu.

Mewn ymateb i adroddiad y Panel Arbenigwyr Darlledu, *Dyfodol Newydd ar gyfer Darlledu a Chyfathrebu yng Nghymru*, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod Corff Cynghori ar Ddarlledu a Chyfathrebu i gael ei sefydlu. Bydd y Corff Cynghori yn cynnig cyngor amserol i Lywodraeth Cymru ar faterion darlledu cyfredol mewn sector sy'n esblygu'n gyflym, gan gynnwys darparu deunydd Cymraeg, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi i gryfhau'r cyfryngau yng Nghymru.

**Cyngor Llyfrau Cymru**

Yn ystod 2023-24, cefnogwyd dros 183 o lyfrau Cymraeg ac 19 o gylchgronau print a digidol i oedolion a phlant. Mae 1,901 o e-lyfrau Cymraeg ar

Gwales/ffolio.cymru bellach – y rhan fwyaf yn llyfrau plant a phobl ifanc. Mae cyhoeddi e-lyfr ochr yn ochr â'r llyfr print yn beth cyffredin erbyn hyn.

Rydym yn parhau i ddarparu grant i Golwg 360 ac mae eu hystadegau ar-lein yn ystod y flwyddyn adrodd fel a ganlyn: cyfartaledd misol o ymweliadau â'r wefan tua 243,000, yr argraffiadau ar Twitter dros 223,000 ac ymwneud â'r deunydd ar Facebook tua 16,467. Mae eu presenoldeb ar Instagram yn weddol newydd a thyfodd eu cyrhaeddiad o 1,000 ar ddechrau'r flwyddyn adrodd hon i 5,800 ar y diwedd gan gyrraedd cyfartaledd dros y flwyddyn o 5,577 (uchafbwynt 14,000 ym mis Awst). Golygodd buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru fod Golwg 360 wedi gallu estyn allan i TikTok a chynyddodd eu dilynwyr o ddim i 792 dros ran fechan o'r flwyddyn adrodd hon.

Cynhaliodd grantiau'r Cyngor 19 o gylchgronau Cymraeg yn ystod y flwyddyn, pedwar ohonynt gydag arian unwaith-ac-am-byth (*Klust, Codi Pais, Chwys* a *Hanes Byw*). Daeth yr arian unwaith-ac-am-byth o ganlyniad i'r *Cytundeb Cydweithio*.

Roedd amrywiaeth yn parhau'n bwnc canolog i waith y Cyngor yn arbennig felly amrywiaeth o ran hil ac ethnigrwydd yng nghyd-destun y Gymraeg. Caniataodd ail don o arian Cynulleidfaoedd Newydd, Llywodraeth Cymru, i'r Cyngor ariannu cyhoeddi llyfrau ac erthyglau gan siaradwyr Cymraeg o gefndiroedd a dangynrychiolir yn draddodiadol. Yn ogystal ag *Y Bysgodes*, cyhoeddwyd *Y Delyn Aur* (a oedd ar restr fer Llyfr y Flwyddyn 2024). Mae ail lyfr gan Malachy Edwards wedi ei gomisiynu a llyfr gan Melanie Owen hefyd. Mae'r arian hwn hefyd i gylchgronau megis *Golwg, Barddas* a *Barn* barhau i gomisiynu a gweithio gydag awduron a ffotograffwyr i greu cynnwys gan ac am bobl sydd fel arfer yn cael eu tangynrychioli yn y wasg Gymraeg.

Parhawyd i gyhoeddi llyfrau ar gyfer dysgwyr – mae cyfanswm o 45 yng nghyfres Amdani bellach, gyda gwerthiant o 60,000. Caniataodd arian Cynulleidfaoedd Newydd Llywodraeth Cymru i'r cyfan gael eu trosi'n e-lyfrau ac yn llyfrau llafar.

Darparwyd deunyddiau yn Gymraeg i gyd-fynd ag ymgyrch Sialens Ddarllen yr Haf a Diwrnod y Llyfr. Gwerthwyd 3,997 copi o'r llyfr £1 Cymraeg *Ffeithiau Ffiaidd y Corff* o fewn 6 wythnos. Lansiwyd cystadleuaeth ysgrifennu stori Gymraeg ar y cyd gyda rhaglen Al Hughes, Radio Cymru.

## 11. Cymru a'r byd ehangach

Rydym am ddangos i'r byd ein bod yn wlad amlieithog sy'n annog pobl o bob cwr o Gymru a thu hwnt i ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym yn dathlu bod ein hiaith yn cael ei siarad gan bobl o bob cefndir ac am groesawu pob un i roi cynnig ar ei defnyddio.

### Ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Mae rhaglen Croeso i Bawb wedi'i gynnal gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ers mis Ionawr 2023. Nod y rhaglen yw cyflwyno'r Gymraeg a

Chymru i bobl nad yw’r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt neu nad ydynt yn siarad llawer o Saesneg.

Mae gwahanol adnoddau ar gael o dan y cynllun, drwy gyfrwng amryw o ieithoedd ac mae’r adnoddau i gyd ar gael yn rhad ac am ddim. Mae modiwlau hunan-astudio digidol ar gael yn Wcreineg, Cantoneg, Arabeg Syria, Farsi a Pashto sy’n cyflwyno pobl a llefydd Cymru, hanes yr iaith, y celfyddydau, chwedlau a chwaraeon. Mae un o bartneriaid y Ganolfan, SaySomethinginWelsh, hefyd yn cynnig cyrsiau Dysgu Cymraeg ar-lein drwy gyfrwng Arabeg Syria, Pashto, a Dari.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, fe wnaeth yr Urdd gydweithio â sawl partner, gan gynnwys y Llywodraeth i groesawu ac ailgartrefu teuluoedd a oedd wedi ffoi o’r rhyfel yn Wcráin. Roedd y Gymraeg yn ganolog i’r croeso ac yn cyfrannu’n fawr at ein gwaith i wneud yn siŵr bod Cymru yn Genedl Noddfa.

**Ysgol Gymraeg Llundain**

Yn ystod flwyddyn adrodd, fe wnaethom barhau i ddyfarnu grant blynyddol i Ysgol Gymraeg Llundain. Mae’r ysgol yn hyrwyddo’r Gymraeg yn Llundain ac yn darparu addysg gynradd Gymraeg i blant y ddinas. Mae nifer ohonynt yn dychwelyd, maes o law, i’r system addysg Gymraeg yng Nghymru.

**Patagonia**

Mae Prosiect yr Iaith Gymraeg yn parhau i ddatblygu'r iaith yng nghymunedau Cymraeg talaith Chubut, Patagonia, drwy wersi ffurfiol i bobl ifanc ac oedolion, yn y tair ysgol ddwyieithog a thrwy weithgareddau cymdeithasol. Yn ystod 2023-24, roedd dros 970 o ddysgwyr wedi cofrestru (mewn ysgolion ac fel oedolion) – sydd wedi codi o 623 yn 2020. Darparwyd ystod o weithgareddau cymunedol a diwylliannol gan yr athrawon a leolwyd yno, yn Chubut ei hun a thrwy gyswllt rhithiol rhwng Chubut ac ysgolion a grwpiau cymunedol yng Nghymru.

Mae Cydlynydd Addysgu parhaol o Gymru sy'n gyfrifol am ansawdd yr addysgu hefyd yn gweithio ym Mhatagonia. Mae'r prosiect yn cefnogi rhwydwaith o ugain o diwtoriaid Cymraeg sy'n gweithio yn yr ardal. Maent yn cynnig cymorth addysgu i'r ysgolion dwyieithog yn ogystal ag mewn gwersi oedolion.

Drwy ysgoloriaethau haf a ariennir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mae cyrsiau dysgu i oedolion yn rhoi cyfle i addysgwyr Patagonia ymweld â Chymru i fynychu cyrsiau Cymraeg, gan sicrhau bod y prosiect yn helpu i gynnal safonau addysgu, a bod y methedolegau diweddaraf ar waith.

Drwy gydol 2023-24, mae datblygwr cynnwys yng Nghymru wedi parhau i greu cynnwys digidol ar gyfer y prosiect ar Sianel YouTube Gales Con Marian (Cymraeg gyda Marian), gan gynnwys rhannu blogiau fideo o Gymru i ddysgwyr eu gweld mewn cyd-destun Cymreig, y gellir eu defnyddio yn y dosbarth a'r tu allan, a hefyd gan fyfyrwyr y tu allan i ddalgylch Chubut. Mae'r deunyddiau digidol wedi gallu denu diddordeb pobl sy'n newydd i ddysgu Cymraeg yn ogystal â chefnogi myfyrwyr cyfredol a myfyrwyr sydd ar lefel uwch.

Mae'r prosiect wedi parhau i hwyluso ystod o weithgareddau cysylltiedig ac ymweliadau yn ystod 2023-24. Ymwelodd disgyblion a staff â'r ardal o amrywiol ysgolion, colegau a phrifysgolion yng Nghymru, ac roedd hyn yn yn cynnwys cyfleoedd gwirfoddoli. Fe wnaeth tri o staff Mudiad Meithrin weithio ochr yn ochr ag athrawon lleol i rannu arferion gorau yn y blynyddoedd cynnar. Cymerodd Ysgol Gymraeg y Gaiman, Chubut, ran yn Eisteddfod yr Urdd ar-lein hefyd.

**Cysylltiadau Rhyngwladol**

Mae swyddogion wedi bod yn parhau i roi lle blaenllaw i'r Gymraeg wrth weithredu'r *Strategaeth Ryngwladol i Gymru*. Mae hyn yn cynnwys rhannu arferion da a chefnogi gwledydd a rhanbarthau sydd ag ieithoedd lleiafrifol ledled y byd.

**Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol**

Mae'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD) yn rhwydwaith Ewrop gyfan sy'n gweithio ym maes polisi a chynllunio ieithyddol ar ran Ieithoedd Cyfansoddiadol, Rhanbarthol a Gwladwriaethol Bach ledled Ewrop. Prif nod yr NPLD yw codi ymwybyddiaeth ar lefel Ewropeaidd o bwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol. Nod arall yw hwyluso'r broses o gyfnewid arferion gorau ymysg llywodraethau, gwneuthurwyr polisi, ymarferwyr, ymchwilwyr ac arbenigwyr o bob rhan o Ewrop.

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fod yn  aelod llawn o'r NPLD. Ym mis Mehefin 2023, fe wnaethon ni gyflwyno a thrafod ein gwaith ym maes newid ymddygiad a throsglwyddo iaith i gynhadledd yr NPLD. Ym mis Tachwedd 2023, fe gyfrannon ni at ddigwyddiad a drefnodd yr NPLD ar gydraddoldeb gwasanaethau i siaradwyr ieithoedd y rhwydwaith a chanddynt anableddau.

**Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

Rydym yn parhau i gadeirio grŵp gwaith Ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig gan barhau i fanteisio ar y fforwm hwn i rannu arferion da ac arbenigedd gyda phobl o wahanol gefndiroedd.

Er mwyn nodi chwarter canrif ers Cytundeb Belfast/Gwener y Groglith yn ystod y flwyddyn adrodd, datblygodd y grŵp gasgliad o gerddi yn holl ieithoedd y Cyngor-Prydeinig Gwyddelig, gyda chyfieithiadau Saesneg. Dyma'r casgliad cyntaf o'i fath, gyda'r cerddi wedi'u hysbrydoli gan gysylltiad yr ieithoedd â'r tir a'r môr. Fe'i cyhoeddwyd ar ffurf llyfryn a fideo a'i arddangos yn uwch-gynadleddau'r Cyngor gydol y flwyddyn.

Ym mis Mehefin 2023, teithiodd y grŵp i'r Ŵyl Cyfryngau Celtaidd yn Donegal i feithrin cysylltiadau ag eraill sy'n gweithio ym maes iaith a'r cyfryngau mewn ieithoedd lleiafrifol. Roedd y grŵp yn rhan o sesiwn banel ar raglenni dogfen lle bu cyfle i edrych ar sut i ddefnyddio ieithoedd lleiafrifol mewn gwahanol gyd-destunau ar lwyfannau byd-eang.

Cynhaliwyd cyfarfod gweinidogol y grŵp yn Jersey ym mis Hydref 2023, lle bu cyfle i weinidogion yr aelod-wladwriaethau graffu ar waith y grŵp dros y

blynyddoedd diweddar a chymeradwyo'r rhaglen waith nesaf. Bydd y rhaglen nesaf yn canolbwyntio ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg (yn y cartref, ymysg pobl ifanc ac mewn gweithleoedd), seilwaith ieithyddol (er enghraifft geiriaduron ac enwau lleoedd) a diwylliant.

**Degawd Rhyngwladol Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig 2022-32**

Yn ystod y flwyddyn adrodd, bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod sawl pwnc gydag UNESCO, yn benodol technoleg ar gyfer ieithoedd llai fel rhan o weithgarwch Degawd Rhyngwladol Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig 2022-32. Byddwn yn parhau i godi proffil y Gymraeg a rhannu arferion gorau gydag eraill ledled y byd fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn "*genedl sy'n gyfrifol ar lefel byd eang*". Mae'r gwaith hwn yn cynnwys parhau i feithrin a chryfhau partneriaethau gyda rhanddeiliaid allweddol fel Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wedi parhau â'u prosiect Gwrando gan ganolbwyntio ar y grefft o wrando ar y doethinebau sy'n perthyn i ieithoedd brodorol a chymunedau sydd mewn perygl a'r tir y maent yn byw ynddo. Dyma rai o'r prosiectau a fu ar waith yn ystod y flwyddyn: dysgu rhagor am juoiggus sef traddodiad caneuon hynafol y Sámi; cysylltu â mamiaith drwy wrando ar y Gawa Undi a Henuriaid y Bobl Chewa; gwrando ar leisiau hynafiaid a defod iachau traddodiadol pobl frodorol Muisca Colombia; parhau i archwilio'r cysylltiadau rhwng Cymry a phobl Khasi drwy farddoniaeth, cerddoriaeth a pherfformio; archwilio a chreu deialog am greu iaith cwiar yn yr Wyddeleg a'r Gymraeg.

**European Charter Classroom Activities (ECCA)**

Roedd Llywodraeth Cymru yn un o bartneriaid allweddol y prosiect hwn gyda'r nod o ennyn ymdeimlad o falchder pobl ifanc yn eu hieithoedd lleiafrifol. Cafodd dysgwyr o Ysgol Garth Olwg gyfle i gynrychioli Cymru mewn campws ieithoedd lleiafrifol i bobl ifanc ym Mallorca ym mis Mai 2023 ar ôl ennill cystadleuaeth i greu fideo yn esbonio pam fod y Gymraeg yn bwysig iddynt. Yn ogystal, fe wnaethant deithio i Frwsel i gyflwyno eu prosiect a'u canfyddiadau i'r Comisiwn Ewropeaidd a Chyngor Ewrop ar y cyd â phobl ifanc sy'n siarad ieithoedd lleiafrifol ar draws Ewrop.

**Cytundebau rhyngwladol**

Drwy gydol y flwyddyn adrodd, mae swyddogion wedi parhau i weithredu ymrwymiadau polisi iaith a amlinellir mewn amrywiol gytundebau dwyochrog rhyngwladol sy'n cynnwys rhanbarthau fel Llydaw, Catalonia, Gwlad y Basg ac Iwerddon. Llofnodwyd cytundebau newydd yn ystod y flwyddyn gyda Silesia, Fflandrys, Birmingham (Alabama) a Baden-Württemberg.

**Digwyddiadau rhyngwladol**

Rydym wedi parhau i godi proffil y Gymraeg drwy gydol y flwyddyn wrth weithredu ein *Strategaeth Ryngwladol i Gymru*. Parhaodd ein dathliadau Dydd Gŵyl Dewi blynyddol ar draws y byd i arddangos y Gymraeg i gynulleidfaoedd rhyngwladol.

Mae gweithgareddau i hyrwyddo’r Gymraeg yn ystod 2023-24 yn cynnwys digwyddiadau yn Ewrop, Gogledd America, Canada, Japan, India a'r Emiradau Arabaidd Unedig i hyrwyddo'r Gymraeg yn 2023-24.

Roedd y Gymraeg wrth galon Blwyddyn Cymru yn Ffrainc 2023 y Llywodraeth. Cafodd Cymru ei harddangos fel cenedl ddwyieithog hyderus gydol y flwyddyn a chefnogwyd ieithoedd lleiafrifol Ffrainc, Llydaweg yn benodol. Trefnwyd amryw weithgareddau mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol fel Celfyddydau Rhyngwladol Cymru ac Urdd Gobaith Cymru. Er enghraifft, bu’r Urdd yn ymwneud â dros 800 o blant a phobl ifanc yn eu sesiynau Chwarae yn Gymraeg i gyflwyno’r Gymraeg i blant a phobl ifanc ar draws Lorient, Nantes a Lyon. Datblygodd y British Council 29 o bartneriaethau newydd rhwng ysgolion Cymru a Ffrainc, a chadarnhawyd trefniant gefeillio newydd rhwng ysgolion yn Nantes a Chaerdydd. Hefyd, mewn cydweithrediad â’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, teithiodd tiwtor i Nantes, yn ystod Cwpan Rygbi’r Byd i gynnal gwersi Cymraeg gyda thrigolion y ddinas a gwirfoddolwyr y bencampwriaeth.

Cefnogwyd perfformiadau NoFit State yn Lyon a debut Gruff Rhys o'i albwm newydd ym Mharis gan gronfa ddiwylliannol galwad agored newydd Cymru yn Ffrainc. Mynychodd ddirprwyaeth, dan arweiniad Prif Weinidog Cymru, sesiwn rwydweithio dysgu a chyfnewid gydag Ysgrifenyddiaeth UNESCO ac aelod-wladwriaethau er mwyn nodi cysylltiadau newydd ym meysydd ieuenctid, y celfyddydau, treftadaeth, gwerthoedd cymdeithasol ac adfywio iaith.

I ddathlu llwyddiant Blwyddyn Cymru yn Ffrainc ac i hyrwyddo ein cysylltiadau rhyngwladol, comisiynwyd cerdd bedair-ieithog wreiddiol hefyd gan y Prifardd Aneirin Karadog sef Y Ceiliog, y Carlwm a’r Ddraig.

Cynhaliwyd Fforwm Gweinidogol Cymru-Iwerddon 2023 ym mis Hydref 2023. Fel rhan o'r rhaglen ddeuddydd, cynhaliwyd trafodaethau bwrdd crwn lle roedd modd arddangos cryfder Cymru mewn gwahanol feysydd, gan gynnwys darpariaeth trochi hwyr. Yn ystod yr ymweliad, ymwelodd cyn-Brif Weinidog Cymru, Mark Drakeford a Tánaiste Iwerddon, Micheál Martin, ag Ysgol Gymraeg Morswyn yng Nghaergybi, sydd â chyswllt hirsefydledig â Gaelscoil Thaobh na Coille yn Dún Laoghaire, Swydd Dulyn. Yn ogystal â chwrdd â disgyblion, cawsant gyfle i ddysgu am ganolfannau trochi hwyr, a dod ar draws SaySomethinginWelsh, sydd wedi datblygu adnodd digidol dysgu iaith sy'n canolbwyntio ar sgiliau siarad.

### Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd

Ers 1922 yn ddi-dor, mae’r broses flynyddol ar Fai 18 o anfon neges ar ran pobl ifanc Cymru i bobl ifanc yng ngweddill y byd wedi bod yn ysgogi ac yn ysbrydoli gweithgarwch dyngarol a rhyngwladol.

Roedd Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2023 yr Urdd yn ffocysu ar wrth-hiliaeth. Fe’i crëwyd gan fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd gyda'r cerddor Eädyth a Swyddog Cynnwys Addysg S4C, Natalie Jones. Mae'n alwad gan ieuenctid Cymru i weithredu’n uniongyrchol i:

- Ddatgymalu camwahaniaethu systemig

- Herio rhagfarnau diarwybod
- Galw allan hiliaeth pan welwn ni hi bob amser.

Cyfieithwyd y neges i 67 o ieithoedd ac fe’i rhannwyd ar y cyfryngau cymdeithasol mewn 47 o wledydd ledled y byd. Roedd y cyrhaeddiad ar y cyfryngau cymdeithasol yn 10.6m ac fe’i rhannwyd gan enwogion fel Michael Sheen a Matthew Rhys, a sefydliadau megis Achub y Plant a Chymdeithas Bêl-droed Cymru.

## 12. Technoleg ddigidol

Cafodd yr adroddiad terfynol ar ein *Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg* (2018) ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2024. Blaenoriaethau'r cynllun oedd datblygu a rhannu seilwaith newydd i’n hiaith, yn benodol:

- Technoleg lleferydd Cymraeg
- Cyfieithu â chymorth cyfrifiadur
- Deallusrwydd Artiffisial sgwrsiol

Un o brif egwyddorion y cynllun hwnnw oedd datblygu diwylliant o arloesi agored. Roeddem am i fwy o adnoddau digidol a data Cymraeg fod ar gael, heb amodau diangen yn cyfyngu ar eu defnydd, a’r rheiny’n cael eu rhannu o dan drwydded addas – agored a chaniataol lle bynnag y bo’n bosibl – er mwyn cefnogi ymdrechion i arloesi’n ddigidol er budd ein hiaith.

Dyma rai o uchafbwyntiau’r cynllun yn ystod y flwyddyn adrodd:

- Mae modd defnyddio ChatGPT o fewn sgwrsfot Prifysgol Bangor Macsen, ac mae’r Brifysgol wedi dechrau gweithio gyda chwmni OpenAI ar fodelau iaith Gymraeg ar gyfer GPT-4 i wella’r allbwn ar gyfer yr iaith. Cafodd hyn ei drafod yn Symposiwm Academaidd Technolegau Iaith Cymru 2023 a’i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Y prif siaradwr oedd Colin Jarvis, OpenAI, a bu’n trafod sut all academia ac OpenAI wella LLMs (modelau iaith) ieithoedd llai eu hadnoddau.
- Cyhoeddodd Prifysgol Bangor welliannau i’w lleisiau dwyieithog testun-i-leferydd, eu Trawsgrifiwr, a’r sgwrsfot, Macsen. Bwydodd y gwelliannau hyn yn eu tro i’w prosiect bancio lleisiau, Lleisiwr.
- Cyrhaeddodd Cysgliad, offeryn gwirio gramadeg a sillafu, 12,586 o lawrlwythiadau.
- Mae mwy o gyfraniadau i Wicipedia bellach, gyda nifer yr erthyglau newydd yn cynyddu ers cyhoeddi’r *Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg* yn 2018. Mae’r cynnwys sy’n cael ei greu gan y gwirfoddolwyr hyn yn ychwanegu at bresenoldeb y Gymraeg ar y rhyngrwyd, sy’n helpu i gynyddu cyfalaf cymdeithasol ac yn annog mwy o ysgrifennu yn Gymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod adrodd, roedd 279,643 o erthyglau Cymraeg ar Wicipedia, ac fe gyrhaeddodd nifer yr eitemau Wikidata efo labeli Cymraeg i 3,593,389.
- Rydym yn parhau i rannu casgliad o gofau cyfieithu Llywodraeth Cymru am ddim ar BydTermCymru ac rydym wedi ariannu gwaith i greu systemau cyfieithu peirianyddol parth benodol hefyd ym meysydd iechyd a gofal a deddfwriaeth.

- Fel rhan o’n partneriaeth â Microsoft, rydym yn parhau i ddatblygu’r cyfleuster [cyfieithu ar y pryd ar Microsoft Teams](). Mae hwn ar gael heb gost ychwanegol i ddefnyddwyr Teams presennol.
- Fe wnaethom ariannu gwaith datblygu ar wefan Digigrid gyda Phrifysgol Caerdydd er mwyn casglu adnoddau iaith ynghyd e.e. Thesawrws, adnodd crynhoi testun, corpora, Tiwtiadur, a FreeTxt sy’n dadansoddi sentiment testun.
- Rydym yn parhau i ddiweddaru rhestr o adnoddau technoleg Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael ar hyn o bryd.

## 13. Seilwaith ieithyddol

Mae adnoddau seilwaith ieithyddol yn ein helpu i ddefnyddio’r Gymraeg o ddydd i ddydd, ac maen nhw’n cynnwys geiriaduron, adnoddau terminoleg, corpora, yn ogystal â gwaith ymchwil a safoni. Rydym yn ariannu nifer o brosiectau yn y maes yn uniongyrchol, gan gynnwys *Geiriadur Prifysgol Cymru* a’r *Termiadur Addysg*. Mae nifer o’r prif adnoddau eraill hefyd yn derbyn arian cyhoeddus drwy wahanol asiantaethau.

Cyhoeddwyd ein *Polisi Seilwaith Ieithyddol* ar 27 Mehefin 2023. Prif nod y polisi yw ei gwneud hi’n haws i bobl o bob cefndir ddefnyddio’r Gymraeg – yn weithleoedd, yn blant ysgol, yn athrawon, yn siaradwyr newydd neu’n siaradwyr hyderus – drwy wneud yn siŵr eu bod yn gwybod ble i droi i gael gafael ar adnoddau neu ffynonellau ieithyddol.

Er mwyn gyrru’r polisi hwn yn ei flaen, rydym wedi creu Uned newydd o fewn Is-adran *Cymraeg 2050* i ymdrin â materion seilwaith, yn ogystal â gwaith ar enwau lleoedd. Yn ystod 2023-24, dechreuwyd ar y gwaith o wneud i’r gwahanol elfennau weithio gyda’i gilydd yn well, gyda’r nod tymor canolig o sicrhau bod yr adnoddau’n cael eu marchnata’n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cynnal a datblygu’r berthynas gyda’r prif randdeiliaid, chwilio am gyfleoedd newydd i gydweithio, a meithrin cysylltiadau newydd.

Mae’r Uned wrthi’n gwneud gwaith i sefydlu gwefan newydd hawdd i’w chyrraedd, hawdd i’w defnyddio i bawb sydd am ddefnyddio’r Gymraeg. Y bwriad yw datblygu safle lle gall defnyddwyr fynd i gael cyngor ynghylch pa adnoddau sydd orau iddyn nhw, a chael mynediad hwylus at adnoddau fel y prif eiriaduron a chronfeydd termau, yn ogystal â chorpora, mapiau a rhestrau o enwau lleoedd safonol, i gyd mewn un man. Yn ystod y flwyddyn adrodd, dechreuwyd ar waith gyda’r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) i gynnal ymchwil defnyddwyr, er mwyn deall gofynion gwahanol gynulleidfaoedd yn well, targedu cynulleidfaoedd penodol a sicrhau eu bod yn cael y profiad gorau posibl.

Yn ystod 2023-24, caewyd pen y mwdwl ar drafodaethau cychwynnol rhaglen waith gyntaf Panel Safoni’r Gymraeg i fynd i’r afael â materion orgraffyddol o dan gadeiryddiaeth Dr Dylan Foster Evans o Brifysgol Caerdydd. Lluniwyd crynodeb o’r penderfyniadau i’w cymeradwyo’n derfynol gan y Panel. Unwaith y bydd cytundeb ar y rhain, byddwn yn eu rhannu’n gyhoeddus a bydd yr adnoddau dan sylw yn cael eu diweddaru i adlewyrchu’r penderfyniadau hynny. Drwy gynnwys rhai o’r prif ddarparwyr adnoddau seilwaith yn y gwaith, y gobaith yw y bydd hyn

yn gam tuag at sicrhau rhagor o gysondeb er mwyn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr fynd ati i ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus. Mae'r Panel bellach wrthi'n paratoi ei ail raglen waith.

**Cyfieithu**

Rydym yn parhau i gefnogi Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru sef y gymdeithas broffesiynol sy'n cynnal ac yn hyrwyddo safonau cyfieithu proffesiynol, gan wella a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr. Yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd gan y Gymdeithas 385 o aelodau. Cynhaliwyd cyfres o weithgareddau gydol y flwyddyn gan gynnwys sesiynau 'Dewch i gyfarfod y Prif Swyddog' yng Nghaerdydd, Caernarfon ac yn rhithiol. Cynhaliwyd rhaglen o sesiynau amser cinio a Diwrnod i'r Aelodau ar 26 Hydref 2023.

**Cyfieithu ar y pryd ym Microsoft Teams**

Fel rhan o'n partneriaeth ni â Microsoft, rydym wedi cydweithio i greu cyfleuster cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd Microsoft Teams. Mae hwn ar gael heb gost ychwanegol i ddefnyddwyr Teams presennol. Mae gwaith yn parhau gyda Microsoft i ddatblygu'r cyfleuster hwn ymhellach gyda'r gobaith y bydd yn arwain at greu adnoddau tebyg a newydd ar gyfer ieithoedd sy'n cael eu siarad ledled y byd, yn seiliedig ar ein gwaith yng Nghymru.

**Enwau lleoedd**

Yn ein *Rhaglen Lywodraethu*, rydym wedi ymrwymo i weithio i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg.

Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddwyd ein *Polisi Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg, a oedd yn ail-ddatgan* y camau cychwynnol yn hyn o beth, a fynegwyd gyntaf yn ein *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* ym mis Hydref 2022. Ymhlith y prif gamau a nodwyd yn y dogfennau hyn oedd cynnal ymchwil er mwyn deall yn well y prosesau sy'n arwain at newid enw lle. Ddechrau 2023, felly, comisiynwyd prosiect ymchwil gan Cadw, mewn cydweithrediad â swyddogion o Is-adran Cymraeg 2050, gyda'r amcan o nodi ble, sut a pham mae enwau lleoedd yn newid, faint o enwau sy'n newid neu sydd wedi newid yn ddiweddar, a natur y newidiadau hyn. Y bwriad yw gwneud argymhellion deallus ynghylch opsiynau posibl i ddiogelu'r enwau lleoedd Cymraeg hynny a allai fod o dan fygythiad penodol. Mae'r mathau canlynol o enwau lleoedd yn cael eu hystyried:

- Enwau eiddo — gan gynnwys tai, ffermydd ac adeiladau eraill
- Enwau busnesau
- Enwau datblygiadau a strydoedd cysylltiedig

Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn llywio ein llwybr o ran y camau nesaf i'w cymryd yn y maes hwn, gan gynnwys y rhai a nodir yn y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* a *Pholisi Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg*. Rydym yn rhagweld y caiff y canlyniadau eu cyflwyno mewn adroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae ein Fforwm Sirol Enwau Lleoedd wedi parhau i gyfarfod yn ystod y cyfnod adrodd, sy’n cynnwys cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru yn ogystal ag awdurdodau lleol Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr. Nod y Fforwm yw:

- Rhannu gwybodaeth.
- Canfod bylchau yn y ffordd o ymdrin ag enwau lleoedd, a chyfleoedd i gydweithio.
- Cefnogi ein gilydd i geisio canfod datrysiadau ymarferol i atal enwau Cymraeg rhag cael eu disodli.
- Rhannu arferion da, fel bod enghreifftiau o’r hyn sy’n gweithio mewn un sefydliad yn gallu cael eu mabwysiadu, lle bo’n briodol, mewn sefydliad arall.
- Datblygu syniadau am sut i brif-ffrydio'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg mewn deunyddiau ac ar sianeli Saesneg yn ogystal â rhai Cymraeg.

## 14. Cynllunio ieithyddol

Mae popeth sy’n cael ei drafod yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â chynllunio ieithyddol. Rydym yn defnyddio strwythurau Llywodraeth Cymru i roi *Cymraeg 2050* ar waith ar draws ei hamrywiol feysydd polisi a thu hwnt.

### Bwrdd Rhaglen Cymraeg 2050

Uwch-swyddogion o bob cwr o’r Llywodraeth yw aelodau Bwrdd Rhaglen Cymraeg 2050. Diben y Bwrdd yw craffu ar gynnydd, cynnig cyngor ac arweiniad a sicrwydd wrth weithredu *Cymraeg 2050*. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Bwrdd gyfarfod bob tymor i drafod materion megis gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, Bil y Gymraeg ac Addysg, canlyniadau Cyfrifiad 2021, strategaeth defnydd mewnol o’r Gymraeg y Llywodraeth. Cafwyd hefyd gyflwyniad a thrafodaeth gyda Chomisiynydd y Gymraeg.

### Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Sefydlwyd Cyngor Partneriaeth y Gymraeg o dan adran 149 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae’r Cyngor wedi parhau i gyfarfod o leiaf unwaith y tymor i roi cyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â *Cymraeg 2050.* Bu’r Cyngor yn trafod, yn ystyried yn ogystal â chynghori’r Gweinidog ar amrywiol faterion sy’n effeithio ar faes polisi y Gymraeg, er enghraifft y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*, Bil y Gymraeg ac Addysg, gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, cydraddoldeb a’r Gymraeg, y blynyddoedd cynnar a’r Cynllun Grantiau Hyrwyddo a Hwyluso’r Defnydd o’r Gymraeg.

### Grŵp Hyrwyddo’r Gymraeg

Nod Grŵp Hyrwyddo’r Gymraeg yw tynnu ynghyd amrywiol bartneriaid sy’n gweithio ym maes cynllunio ieithyddol i rwydweithio, rhannu gwybodaeth, cynnal trafodaethau a rhannu syniadau. Yn ystod 2023-24, cafwyd cyfarfod wyneb yn wyneb ar y cyd â Chyngor Partneriaeth y Gymraeg a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i drafod gofodau uniaith Gymraeg, a’n cynllun grantiau.

## 15. Gwerthuso ac ymchwil

Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 am y Gymraeg yng Nghymru fis Rhagfyr 2022, rydym bellach wedi cyhoeddi dadansoddiadau ychwanegol gan gynnwys am gyfansoddiad cartrefi yng Nghymru o ran y Gymraeg, y Gymraeg yn ôl nodweddion y boblogaeth, cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd yn ôl rhyw, a'r Gymraeg yn ôl cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd (noder bod y ddau fwletin olaf wedi eu cyhoeddi tu hwnt i gyfnod adrodd yr adroddiad blynyddol hwn, ym mis Mai a mis Gorffennaf 2024).

Cynhaliwyd Arolwg Defnydd Iaith rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Mawrth 2020, a chyhoeddwyd bwletin ystadegol ar ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ym mis Medi 2023 ar sail yr arolwg. Mae detholiad o'r canfyddiadau hyn wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Rydym hefyd wedi bod yn parhau i gyhoeddi amcangyfrifon o allu'r boblogaeth yn y Gymraeg o Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ein gwefan bob chwarter. Mae ystadegwyr Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r prif ffynonellau data gweinyddol ac arolygon a ddefnyddir i lunio ystadegau ar y Gymraeg. Cyhoeddwyd cynllun gwaith ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Ebrill 2023, ac ym mis Hydref 2023, fel rhan o'r cynllun gwaith hwnnw, cyhoeddwyd erthygl ynglŷn â'r Gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2021 ac arolygon aelwydydd.

Cafodd gwaith ei wneud yn ystod y flwyddyn adrodd i gynnal asesiad cyflym o'r dystiolaeth ar gyrchddulliau a dulliau effeithiol mewn addysg drochi, ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mai 2024. Cafodd tystiolaeth yn ymwneud â throchi cyfrwng Cymraeg yng Nghymru a throchi yn rhyngwladol ei chanfod, ei gwerthuso a'i chrynhoi. Nod yr asesiad hwn o'r dystiolaeth yw cynnig arweiniad i ymarferwyr, hyfforddwyr a llunwyr polisi ar sut i ddarparu addysg drochi effeithiol i ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed yng Nghymru.

Drwy gydol y flwyddyn, datblygwyd ymhellach y gwaith o brif-ffrydio'r Gymraeg yng ngwaith ymchwil a gwerthuso'r Llywodraeth ar draws yr amrywiol feysydd polisi.

# Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i edrych yn ôl ar ein gwaith ni a gwaith ein partneriaid mewn amrywiaeth eang o feysydd yn ystod 2023-24. Mae'n manylu ar ein cynnydd yn erbyn ein targedau i ddyblu defnydd dyddiol o'r Gymraeg a chyrraedd y miliwn erbyn 2050. Mae'n bwysig nodi y dylid ystyried y flwyddyn adrodd hon, fel bob amser, fel rhan o lwybr hirdymor ein strategaeth iaith Gymraeg.

Tra'n edrych yn ôl ar ein cynnydd, rydym yn edrych ymlaen yn awr tuag at ddiwedd ein Rhaglen Waith gyfredol, a ddaw i ben yn 2026. Byddwn yn parhau i weithio ar draws y Llywodraeth a thu hwnt i flaenoriaethau Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), i gynnal ein cymunedau Cymraeg, i gynyddu defnydd iaith ym mhob ardal a chyd-destun ac i ddatblygu technoleg iaith.